Rydym yn cytuno y dylid rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu disgrifiadau'r categorïau, gan wneud hynny mewn ffordd sy'n grymuso'r Gymraeg ac yn annog ysgolion i godi eu huchelgais. Byddai gosod y categorïau mewn rheoliadau yn sicrhau cysondeb i'r holl randdeiliad.

Cwestiwn 7 – Beth yw eich barn am gynnwys isafswm o ran amser a ddarperir yn Gymraeg? Beth yw eich barn am effeithiau isafswm o'r fath ar ysgolion, dysgwyr a staff? A ydych yn rhagweld unrhyw effeithiau eraill?

Sylwadau ategol

Mae'r cysyniad o isafswm oriau yn y Gymraeg yn un clodwiw, cyn belled bod yr oriau yn ddigonol i ddisgyblion ddatblygu yn siaradwyr hyderus. Bydd angen eglurder o ran natur yr oriau cyswllt, ond yn fwy na dim bydd angen buddsoddiad digonol yn y gwaith o ddatblygu gweithlu i ddarparu'r isafswm.

Cwestiwn 8 – Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 51 i 56 ynghylch gosod ysgolion mewn categori ieithyddol a rôl gymeradwyo yr awdurdod lleol yn y broses?

Sylwadau ategol

Rydym yn credu bod y cynnig hwn yn un dilyys, ond mae'n ddibynnol iawn ar sicrhau diffiniadau clir ar gyfer y categorïau. Bydd diffiniadau a disgwyliadau clir yn hwyluso'r gwaith o sicrhau unfurfiaeth o fewn yr awdurdodau lleol, ond hefyd yn genedlaethol.

Fel prifysgol sy'n hyfforddi athrawon rydym yn awyddus i bwysleisio y bydd gosod ysgolion mewn categori iaith eglur yn allweddol wrth ystyried lleoli myfyrwyr yn ôl eu proffil iaith, gyda chyfleoedd amlwg i gynorthwyo'u datblygiad ar hyd y continwwm sgiliau newydd.

Mae'r cynnig ym mharagraff 55 yn allweddol o ran eglurder a thryloywder. Byddai cynnwys categori iaith ysgol o fewn set data'r CYBLD yn galluogi dadansoddiad ar lefel ysgol, awdurdod ac yn genedlaethol, a hynny ar sail data ystyrlon.

Cwestiwn 9 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai pob ysgol gynyddu ei darpariaeth Gymraeg dros amser?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r cynnig hwn yn gwbl greiddiol i wireddu amcanion y Bil. Fel arall, mae peryg real mai parhau i aros yn eu hunfan yn ieithyddol fydd hanes nifer fawr o ysgolion. Yn wir, fel prifysgol sy'n canfod y gwaith o drosi myfyrwyr at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gynyddol heriol, rydym yn ymwybodol mai tuedd at leihau'r ddarpariaeth a welwyd mewn sawl ysgol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Credwn fod llwyddiant y cynnig hwn yn ddibynnol ar osod targedau clir a monitro cynnydd yn eu herbyn.

Cwestiwn 10 – Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 57 i 60 ynghylch y broses o gynyddu darpariaeth Gymraeg ysgolion?

Rydym yn credu fod y cynigion hyn yn rhai teg ac yn cynnwys rhai canllawiau defnyddiol ym mharagraff 60.

Mae 'darpariaeth Gymraeg' yn gofyn am ddiffiniad clir o natur y ddarpariaeth o ran materion ehangach hefyd (e.e. cyfleoedd allgyrsiol, darpariaeth ADY, darpariaeth iechyd a lles, darpariaeth wrth gydweithio gyda rhieni, cyfleoedd i ddefnyddio iaith yn gymdeithasol).

Cwestiwn 11 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 62 i 64 ynghylch monitro cynnydd ysgolion?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn credu bod trefn fonitro effeithiol yn allweddol i wireddu'r egwyddor y dylai pob ysgol gynyddu ei darpariaeth ac yn cytuno bod gan yr awdurdodau lleol ac Estyn gyfraniadau pwysig i'w gwneud yn y cyswllt hwn. Nodwn, serch hynny, fod angen canllawiau clir gan Estyn a disgwyliadau clir ar yr ysgolion mewn gwahanol gategoriâu o ran y dystiolaeth fydd yn cael ei chasglu yng nghyd-destun defnydd o'r Gymraeg.

Cwestiwn 12 – Beth yw eich barn ynghylch sut ddylai awdurdod lleol benderfynu ai ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai ysgol newydd a sefydlir?

Sylwadau ategol

Gan mai amcan canolog y Bil ydy cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg, a hynny er mwyn gwireddu nod y miliwn siaradwyr, mae'n allweddol felly fod penderfyniadau ynghylch ysgolion newydd yn cefnogi'r nod hwnnw. Mae gosod rhagdybiaeth mai ysgol cyfrwng Cymraeg fydd pob ysgol newydd yn gam allweddol tuag at gadarnhau'r egwyddor y dylai addysg Gymraeg fod ar gael yn hwylus i bob plentyn yng Nghymru.

Cwestiwn 13 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig yn yr adran hon ynghylch rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg (fydd yn gosod cyfeiriad i'r cynlluniau gweithredu lleol statudol)?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn gweld ac yn gwerthfawrogi'r rhesymeg y tu ôl i'r cynnig hwn ac yn cytuno bod angen gweledigaeth fwy cydlynus ar holl fater dilyniant. Credwn y dylai'r cynllun osod cyfeiriad ar gyfer defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â chaffael a dysgu.

Cwestiwn 14 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 73 a 74 i bennu targedau cenedlaethol ynghylch y gweithlu addysg a'u cynnwys yn y Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r cynnig hwn yn cyffwrdd â'n pryder mwyaf o ran gwireddu amcanion y Bil, sef y ffaith nad oes gennym weithlu addysg digonol yn ei le a dim argoel ychwaith bod y gweithlu yn tyfu ar raddfa ddigonol i weddnewid y sefyllfa. Er bod gosod targedau fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol i gynyddu nifer yr athrawon i'w groesawu, ofer fydd targedau heb ymyriadau pellgyrhaeddol i ddenu athrawon newydd i'r proffesiwn a buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant athrawon a'u datblygiad proffesiynol. Fel prifysgol, credwn fod gennym gyfraniad sylweddol i'w wneud yn y maes hwn nad yw'n cael ei gydnabod yn ddigonol yn y cynigion fel ag y maent.

Cwestiwn 15 – Ydych chi'n cytuno bod y deilliannau a nodir ym mharagraff 82 yn parhau i gynnig ffocws clir i'r cynllunio cenedlaethol a lleol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno gyda'r pwyslais clir sydd yn yr adran hon ar feithrin cynnydd. Credwn fod cyfle i amlygu o fewn y deilliannau sut yr eir ati i ymdrin â hwyrddyfodiaid gan roi pwyslais ar addysgeg trochi cynnar a hwyr.

Cwestiwn 16 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) ar ôl 5 mlynedd i alinio gydag adroddiad cynnydd 5 mlynedd y Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae hwn yn ymddangos yn gynnig synhwyrol.

Cwestiwn 17 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai targedau y Gymraeg mewn addysg gael eu gosod ar awdurdodau lleol gan Weinidogion Cymru?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Gan mai'r Llywodraeth sydd wedi gosod nod y miliwn siaradwyr, mae'r cynnig hwn i osod y cyfrifoldeb o gynllunio cynnydd ar Weinidogion Cymru yn synhwyrol. Fe ddylai hefyd fod yn fodd o sicrhau gwell unffurfiaeth yn genedlaethol.

Cwestiwn 18 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i Weinidogion Cymru gomisiynu adolygiad allanol o gynnwys Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) drafft pan fo'n briodol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno fod barn allanol wrthrychol ac arbenigol yn mynd i fod yn werthfawr yn y cyswllt hwn ac yn fodd o sicrhau bod datblygiadau yn cael eu hadeiladu ar sail ymchwil.

Cwestiwn 19 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion i roi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Fel y nodwyd eisoes, cynllunio a datblygu gweithlu addas ydy'r her fwyaf sy'n sefyll yn ffordd y gwaith o weithredu amcanion y Bil. Mae'n bwysig felly sicrhau perchnogaeth lawn ar yr her – yn lleol a chenedlaethol. O ran dyletswyddau'r awdurdodau lleol yn benodol, credwn fod yna le i bwysleisio eu cyfrifoldeb i sicrhau a hwyluso cyfleoedd hyfforddiant iaith i'w gweithlu cyfredol.

Cwestiwn 20 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 100 i 102 ynghylch cyhoeddi adroddiadau ar weithredu'r Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAu) a chynnydd yn erbyn targedau'r Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno â'r cynnig fel cyfrwng i sicrhau atebolrwydd.

Cwestiwn 21 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi swyddogaeth i Estyn i gynnal adolygiad chwim a chynnig argymhellion mewn sefyllfaoedd lle mae'n ymddangos bod risg na fydd awdurdod yn gwireddu ei dargedau?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno bod angen llwybrau clir i ymdrin ag unrhyw dangyflawniad posib gan awdurdod lleol. Yn hynny o beth, byddai rhoi swyddogaeth i Estyn yn sicrhau mesur o atebolrwydd.

Cwestiwn 22 – Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol i weithredu eu Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau)?

Credwn y byddai galluogi mecanwaith hwylus ar gyfer cydweithio a rhannu arfer dda rhwng awdurdodau yn un ffordd o gefnogi'r nod hwn.

Cwestiwn 23 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg i rieni a gofawyr?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno'n gryf gyda'r cynnig hwn. Mae'n allweddol bod rhieni a gofawyr yn llwyr ymwybodol o fanteision addysg Gymraeg. Byddai modd atgyfnerthu ymdrechion yr awdurdodau ar lefel genedlaethol hefyd trwy strategaeth gyfathrebu ddyfeisgar (gw. isod).

Cwestiwn 24 – Pa gefnogaeth y dylai Weinidogion Cymru ei chynnig o ran hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg?

Sylwadau ategol

Mae llwyddiant yn magu llwyddiant. Credwn fod potensial sylweddol i greu ymgyrch genedlaethol gref yn amlygu manteision addysg Gymraeg yn tynnu ar bob math o astudiaethau achos, gan ddefnyddio holl ystod y cyfryngau newydd a thraddodiadol i gyrraedd yr holl fudd-ddeiliaid.

Byddai potensial mewn ymgyrch o'r fath, o'i chyllido'n ddigonol, i wneud gwahaniaeth sylweddol ar draws yr holl, sectorau, yn cynnwys y sector ôl-orfodol.

Cwestiwn 25 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo darpariaeth trochi hwyr i rieni, gofalwyr a dysgwyr?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae addysg drochi yn un o lwyddiannau mawr y gyfundrefn addysg yng Nghymru. Mae'n bwysig felly fod gwybodaeth am gynlluniau o'r fath yn cael ei hamlygu mewn ffordd ddeniadol i hwyrddyfodiad, ac yn cynnwys enghreifftiau o ddisgyblion sydd wedi elwa ar y ddarpariaeth. Credwn ei bod hi'n bwysig hefyd rhoi sylw i'r gwaith o gynghori rheini a gofalwyr ar sut y gallan nhw gefnogi disgyblion ar eu taith iaith.

Cwestiwn 26 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu trochi hwyr i ddysgwyr?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno'n gryf gyda'r cynnig hwn. Mae rhoi'r cyfle i bawb ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus yn egwyddor allweddol.

Cwestiwn 27 – Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai cefnogaeth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes, gan gynnwys addysg ysgolion, gael ei chanoli o fewn un sefydliad?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Gan fod 'dysgu'r Gymraeg gydol oes' yn cwmpasu llawer iawn o heriau gwahanol ac amrywiol, credwn y byddai'n anodd iawn i grynhoi'r holl arbenigedd angenrheidiol o fewn muriau un sefydliad. Mae ein cytundeb gyda'r cynnig hwn felly yn amodol ar y ddealltwriaeth fod angen i unrhyw sefydliad sy'n cael ei bennu'n gyfrifol am arwain y gwaith fod yn barod i ymagweddu fel hwylusydd hefyd, gan dynnu ynghyd arbenigeddau o'r tu hwnt i'r sefydliad ei hun. Gallwn weld manteision mawr o ran cysondeb yn y gwaith hyrwyddo, marchnata ac amlygu cysyniad y continwmm, ond bydd angen eglurder o ran y berthynas rhwng y sefydliad a sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y maes. Yn fwy na dim, mae'n allweddol nad yw bodolaeth a datblygiad y sefydliad yn dod yn nod ynddo'i hun ar draul y gwaith sydd angen ei gyflawni.

Cwestiwn 28 – Ydych chi'n cytuno y dylai rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gael ei hehangu i ymgymryd â'r swyddogaeth neu oes model arall y dylid ei ystyried?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Fel prifysgol, rydym eisoes yn cydweithio'n agos gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac yn cydnabod ei llwyddiant yn datblygu ffocws gweladwy i faes Cymraeg i Oedolion a'i chyfraniad pwysig o ran datblygu darpariaeth ac adnoddau, trefniadau ansawdd a chyfleoedd hyfforddiant yn y maes. Rydym yn sylweddoli hefyd fod buddsoddiad helaeth eisoes wedi'i wneud gan y Llywodraeth i ddatblygu gwaith a dylanwad y ganolfan

Fel y nodwyd uchod (cw. 27), mae'r cyfrifoldebau a'r meysydd arbenigol sy'n deillio o'r papur gwyn gryn dipyn yn ehangach na chylch gorchwyl presennol y ganolfan. O ehangu ei chyfrifoldebau, credwn ei bod hi'n allweddol bod hynny'n digwydd mewn deialog a chydweithrediad gyda sefydliadau eraill sydd wedi meithrin arbenigedd dros nifer o flynyddoedd ym maes dysgu iaith a datblygu hyfforddiant ac adnoddau i blant, pobl ifanc a'r gweithlu addysg. Fel Prifysgol sy'n meddu ar lawer o'r arbenigeddau hyn, edrychwn ymlaen at gael cyfrannu'n adeiladol at y trafodaethau hynny. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth gydag adnoddau digonol y bydd modd ymateb i'r heriau sy'n deillio o weithredu cynigion y Bil Addysg hwn.

Cwestiwn 29 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylid gwarantu bod yna ddigon o ddarpariaeth dysgu Cymraeg a strwythurau addas mewn lle i gefnogi dysgwyr o bob oed yng Nghymru?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno'n gryf fod angen darpariaeth ddigonol o'r radd flaenaf, strwythurau cadarn yn eu lle a digon o arian ac adnoddau i allu sicrhau darpariaeth a strwythurau o'r fath. Mae hyn yn gwbl greiddiol os ydy'r Llywodraeth am wireddu'r uchelgais o gael miliwn o siaradwyr hyderus.

Cwestiynau o'r ddogfen 'Amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

Cwestiwn 30 – Ydych chi'n cytuno gyda'n dehongliad ni o'r grwpiau a'r cyrff sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau? A oes grwpiau neu gyrff eraill yn dod o fewn cwrpas y newidiadau ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 31 – Ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg ar ba grwpiau neu gyrff fyddai'r costau'n disgyn?

Sylwadau ategol

Fel y nodwyd uchod, mae'n gwbl allweddol bod yna gyllid digonol i weithredu cynigion y bil yn llawn ac yn llwyddiannus, ac yn arbennig felly o ran sicrhau gweithlu cymwys.

Mae'n rhaid wrth adnoddau digonol i'r holl gyrff sy'n ymwneud â darparu hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn ogystal â chwistrelliad sylweddol iawn i'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y gwaith o uwchsgilio'r gweithlu addysg.

Cwestiwn 32 – Beth yw'r effeithiau eraill (ariannol ac anariannol) sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth arfaethedig nad ydynt wedi'u hamlinellu yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Sylwadau ategol

Yn ogystal â'r elfennau a nodwyd uchod (cw. 31), credwn fod lle i gryfhau'r cymhelliant ariannol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau hyfforddiant athrawon, ond gan wneud hynny mewn ffordd sy'n sicrhau eu cyfraniad at wireddu amcanion y Bil.

Cwestiwn 33 – A oes unrhyw sylwadau eraill ar yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Cwestiynau gorfodol

Cwestiwn 34 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Mae potensial yn y cynigion hyn i wireddu amcan sydd wedi'i gwyntyllu ers degawdau lawer, sef datblygu cenedl wirioneddol ddwyieithog. O ddiwygio'r gyfundrefn addysg yn llwyddiannus a sefydlu gwaelodlin iaith ar lefel B2, bydd dwyieithrwydd fel norm cymdeithasol yn cael ei sefydlu, a hynny yn ei dro yn rhoi hwb sylweddol i faes cynllunio iaith sefydliadol.

Cwestiwn 35 – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 36 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch ddefnyddio'r blwch isod i wneud hynny:

Er ein bod yn sylweddoli mai papur gwyn ar gyfer addysg orfodol yw hwn yn ei hanfod, mae'n destun pryder i ni cyn lleied o sylw sydd wedi'i neilltuo ynddo i'r cyfraniad fydd ei

angen gan y sector addysg uwch i rai o themâu pwysicaf y papur – sef datblygu gweithlu addysg y dyfodol a holl fater dilyniant. Er mwyn gwireddu uchelgais y papur hwn bydd yn rhaid wrth ymrwymiad llawn ac uniongyrchol gan ein prifysgolion.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:





Mehefin 15fed, 2023

ATODIAD 1

YMATEB ADRAN ADDYSG CYNGOR GWYNEDD I'R YMGYNGHORIAD: CYNIGION AR GYFER BIL ADDYSG GYMRAEG

Diolch am y cyfle i gyflwyno sylwadau ar yr ymgynghoriad 'Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg'.

Mae Adran Addysg Cyngor Gwynedd yn croesawu'r cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg a geir yn y ddogfen ymgynghori hon yn gyffredinol, ac yn croesawu ymrwymiad cadarn Llywodraeth Cymru i ddeddfu a chynllunio'n briodol er sicrhau y gwreiddir y dyhead polisi cenedlaethol hirdymor o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cydnabyddir fod y dyheadau a'r deilliannau a nodir yn y cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg yn gorfod adlewyrchu'r holl amrywiaeth o gyd-destunau a geir ar draws Cymru o safbwynt darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, sefyllfa ddemograffeg y Gymraeg yn y gymuned, ynghyd â'r heriau amrywiol o safbwynt y gweithlu addysg a geir ar draws Cymru, ac yn sgil hynny, fod pob awdurdod ar ei thaith unigryw ei hun tuag at gynnal a thyfu addysg cyfrwng Cymraeg.

Wrth gwrs, mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad yn y maes yma ers degawdau yn sgil ein Polisi Iaith Addysg sydd wedi sicrhau bod cenedlaethau o blant a phobl ifanc yn manteisio ar y cyfle i gaffael y Gymraeg drwy'r gyfundrefn addysg a dod yn siaradwyr hyfedd ddwyieithog erbyn 11 oed. Yn wir, yng Ngwynedd mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb, a thrwy gyfrwng Polisi Iaith Addysg y sir rhoddir y cyfle i bob plentyn feithrin sgiliau yn y Gymraeg. Mae Polisi Iaith Addysg Gwynedd felly yn esiampl i weddill Cymru, ac mae'n un y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei hyrwyddo yn genedlaethol er mwyn cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

Yn sgil ein Polisi Iaith Addysg yng Ngwynedd, mae mwyafrif plant a phobl ifanc y sir eisoes yn meddu ar sgiliau yn y Gymraeg sydd y tu hwnt i'r isafswm lefel (sy'n gyfystyr â B2 CEFR) a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Fodd bynnag, deallir yr angen i ystyried y cynigion yn y ddogfen ymgynghori yng nghydestrun Cymru gyfan, ac er na fydd yr isafswm lefel yn dylanwadu ar ein huchelgais ni i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd fod yn meddu ar sgiliau uwch yn y Gymraeg, bydd diffinio'n eglur yr isafswm disgwylidig ar gyfer dysgwyr ar draws Cymru erbyn y byddent yn gadael addysg statudol yn sicrhau eglurder o'r sgiliau Cymraeg y bydd dysgwyr ar draws Cymru yn meddu arnynt erbyn bod yn 16 oed, er y byddai Gwynedd yn deisyfu i Lywodraeth Cymru osod y nod hwn erbyn bod dysgwyr yn 11 oed yn hytrach nag 16 oed.

At hyn, bydd y cynnig i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddatgan continwmm sgiliau Cymraeg, ac yn sgil hynny gyhoeddi fframwaith fyddai'n disgrifio'r gwahanol lefelau o

hyfedredd yn ein galluogi ni yng Ngwynedd i nodi'r lefel ddisgwyliedig o sgiliau Cymraeg y byddai pob plentyn a pherson ifanc yn meddu arnynt yn lleol i ni, fyddai uwchlaw'r isafswm cenedlaethol ar gyfer dysgwyr (lefel B2 CEFR) erbyn iddynt fod yn 16 oed.

Cefnogir bwriad Llywodraeth Cymru i greu cyfundrefn gategoreiddio statudol, o'i gymharu â'r gyfundrefn bresennol, gan y bydd yn gyfrwng i sicrhau gorfodaeth benodol i bob ysgol a gynhelir yng

Nghymru gael ei chategoreiddio ar sail darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn sail gadarn i fonitro perfformiad ysgolion wrth wireddu gofynion eu categori, ac yn rhoi cyd-destun clir ar gyfer targedau cynnydd a fydd yn cael eu gosod yn y Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg arfaethedig (CGCA). Cydnabyddir mai creu fframwaith fyddai'r Bil a fyddai'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion i bennu disgrifiadau penodol y categorïau mewn rheoliadau gan gynnwys yr isafswm o ran amser a ddarperir yn Gymraeg – cefnogir y bwriad hwn, er y bydd yr isafswm o anghenraid yn gorfod adlewyrchu'r sefyllfa ar draws Cymru. Cefnogir y bwriad hefyd i bennu disgrifiadau'r categoreiddio mewn is-ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu i Weinidogion ail-ymweld ac addasu a chynyddu'r isafswm dros amser wrth i ffactorau newid. Byddem hefyd yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at unrhyw ymgynghoriad pellach ar gategoreiddio a'r disgrifiadau cysylltiedig. Ar yr un pryd, byddem yn croesawu petai cyfle i ail-edrych nawr ar y disgrifiadau o'r categorïau sydd yn y canllaw anstatudol, ac yn arbennig felly'r disgrifiad o'r isafswm ar gyfer Categori 3 - uwchradd.

Rydym hefyd yn cefnogi'r bwriad i awdurdodau lleol wirio a chymeradwyo categori pob ysgol er sicrhau cysondeb, gan y bydd yn galluogi'r awdurdod i fonitro yn erbyn y categori y mae wedi rhoi sêl bendith iddo. Byddai hefyd yn gyfrwng i'r awdurdod lleol a'r ysgol gydweithio wrth benderfynu ar y categori sy'n ddisgrifiad addas ar gyfer yr ysgol. Er sicrhau cysondeb ar draws Cymru, rydym hefyd yn croesawu'r bwriad yn y cynnig y dylid gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch sut i fynd ati i osod eu categori, gan roi eglurder ynghylch y data sydd i'w ddefnyddio i wneud hyn, unrhyw ystyriaethau y dylid eu rhoi, ac unrhyw brosesau ac amserlenni y mae'n rhaid eu dilyn. Er ein bod yn gefnogol iawn o'r ymrwymiad i sicrhau fod pob ysgol yn cynyddu ei ddarpariaeth Gymraeg dros amser, a bod yr ymrwymiad hwn yn adlewyrchiad o ddyhead cenedlaethol, a bod lle i ninnau hefyd yng Ngwynedd ystyried pa gyfleoedd sydd gennym i gynyddu darpariaeth Gymraeg ein hysgolion ymhellach, er hynny, nid yw'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod nac yn cyfeirio at bendraw'r cynnydd hwnnw o fewn Categori 3, nac ychwaith yn cydnabod y byddai cynnal y sefyllfa bresennol ynddo 'i hun mewn rhai sefyllfaoedd yn gyflawniad teilwng. Cydnabyddir hefyd nad oes modd sicrhau cynnydd di ben draw, er mor deilwng yw'r nod o symud tuag at fwy o ddarpariaeth Gymraeg. Efallai fod y ddogfen wrth ei darllen yn adlewyrchu'r sefyllfa mewn ardaloedd eang o Gymru lle mae cynyddu'r ysgolion dynodedig ar draul ysgolion Saesneg yw'r unig ffordd i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, heb adlewyrchu'r sefyllfa mewn ardaloedd fel Gwynedd lle mai'r nod yw creu pob ysgol yn ysgol Categori 3.

Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg, cefnogir y bwriad y bydd CGCA arfaethedig yr awdurdod, a gaiff ei baratoi er mwyn gwireddu'r targedau sirol a bennir gan Weinidogion Cymru yn y Cynllun Cenedlaethol, yn nodi sut mae'r awdurdod am weld cynnydd mewn darpariaeth Gymraeg ar draws y sir. Cefnogir hefyd y gydnabyddiaeth a roddir i ddemograffeg amrywiol y Gymraeg, gan alluogi rhoi ystyriaeth i ddemograffi'r Gymraeg ar lefel mwy micro, wrth i awdurdod allu pennu ym mha

ddalgylchoedd y mae am weld cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r atebolrwydd a roddir ar ysgolion drwy osod dyletswydd ar bob ysgol i nodi mewn cynllun cyflawni sut y byddant yn mynd ati i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg yn ymarferol, gan ymateb i'r disgwyliad yn CGCA arfaethedig ei awdurdod lleol yn cael ei groesawu. Yn yr un modd, cefnogir y bwriad i awdurdod lleol fod yn monitro bod ysgol yn darparu addysg yn unol â'r categori a osodwyd, yn ogystal â monitro bod ysgol yn gwneud cynnydd, boed hynny'n gynnydd oddi fewn i gategori neu'n symud i gategori uwch.

Barn Cyngor Gwynedd yw y dylid gosod rhagdybiaeth mai ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai unrhyw ysgol newydd mewn ardal benodol a byddai'n rhaid i'r Awdurdod nodi rhesymau cadarn dros benderfynu na fyddai pennu ysgol cyfrwng Cymraeg yn rhesymol. Drwy osod rhagdybiaeth o'r math hwn, ceir cyfle gwirioneddol i weld cynnydd yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru, gan orfodi awdurdodau lleol i roi gwir ystyriaeth i addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd. Mae Gwynedd wedi gweithredu'r egwyddor yma ers degawdau wrth gwrs, gyda pholisi iaith cyffredin sydd yn sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i gaffael y Gymraeg, derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog a dod yn siaradwyr – sef union nod Llywodraeth Cymru yn *Cymraeg 2050*.

Cefnogir y dyhead o sicrhau bod yr holl gydrannau yng nghyd-destun gweithgareddau caffael a dysgu'r Gymraeg yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod dysgwyr, beth bynnag ei oedran, yn gallu parhau i ddysgu a gwella ei sgiliau iaith gydol oes. Cefnogir y cynnig felly y dylai Gweinidogion Cymru lunio Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg gyda gweledigaeth 10-mlynedd gyda dyletswydd i'w adolygu a'i gyhoeddi ymhob tymor Seneddol, gyda'r nod o roi sicrwydd i'r dyfodol bod yna fecanwaith cadarn yn ei le i gryfhau a gosod sail fwy cadarn a diamwys i gynllunio addysg Gymraeg. Un o brif ddibenion y Cynllun Cenedlaethol fyddai creu dolen gyswllt rhwng y targed o filiwn o siaradwyr a Chynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) yr awdurdodau lleol. Byddai'r CGCA yn esbonio sut bydd yr awdurdod lleol yn gweithio i gyflawni'r targed statudol a bennir gan Weinidogion Cymru. Cynigir y byddai'r targed lleol yma'n cael ei osod yn y Cynllun Cenedlaethol ar sail statudol.

Fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol, cynigir y bydd disgwyl i Weinidogion Cymru barhau i bennu targedau cenedlaethol ar gyfer nifer yr athrawon tybiedig sydd eu hangen er mwyn hwyluso'r twf mewn addysg Gymraeg. Fel rhan o'r CGCA byddai disgwyl i awdurdodau lleol bennu targedau lleol ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg a chynyddu nifer yr athrawon a chynorthwywyr sydd â sgiliau iaith ar lefel briodol i addysgu ac arwain darpariaeth Gymraeg ar draws pob categori ysgol. Cefnogir y bwriad hwn gan mai'r unig ffordd o wybod pa mor bell ydym o sicrhau gweithlu cyfrwng Cymraeg digonol i ddiwallu anghenion ein hysgolion yw drwy bennu targedau a mesur cyrhaeddiad yn eu herbyn.

Rydym yn cytuno fod deilliannau presennol y CSGA yn parhau i gynnig ffocws clir i gynllunio cenedlaethol a lleol, a gwyddom nad oes awydd ymhob rhan o Gymru ar hyn o bryd i ail-ymweld â'r CSGA mor fuan ers cyhoeddi'r rheoliadau a llunio'r cynlluniau 10 mlynedd. Er hynny, credir bod cyfle i sicrhau llinyn arian rhwng deilliannau'r CSGA â'r hyn y mae'r drefn gategoreiddio'n ceisio ei gyflawni yng nghyd-destun yr isafswm o ran amser a ddarperir yn Gymraeg.

Rydym yn gefnogol i'r bwriad o gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu CGCA ar ôl 5 mlynedd i alinio gydag adroddiad cynnydd 5 mlynedd y Cynllun Cenedlaethol. Rydym hefyd yn gefnogol i'r egwyddor y dylai targedau'r Gymraeg mewn addysg gael eu gosod ar

awdurdodau lleol gan Weinidogion Cymru, gan y byddai hynny'n gyfrwng i wireddu polisi cenedlaethol. Er hynny, cydnabyddir pwysigrwydd sicrhau fod y targedau a osodir gan Weinidogion Cymru yn rhai sy'n addas i amgylchiadau lleol tra'n cydnabod yr uchelgais i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a chreu system addysg lle mae pob plentyn yn dod yn siaradwr Cymraeg.

Mae Cyngor Gwynedd yn gefnogol i'r bwriad o roi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu, ac rydym yn gefnogol i'r bwriad y byddai Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr holl awdurdodau o sut i fynd ati i ddadansoddi anghenion y gweithlu a chynllunio ymlaen.

Rhoddodd Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ddyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol i gyflwyno adroddiad adolygu blynyddol i Weinidogion Cymru yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ers cymeradwyo'r Cynllun neu ers y cyfnod adolygu blaenorol. Nid oes gofyniad i gyhoeddi'r adroddiad adolygu. Cred Llywodraeth Cymru yw y dylai'r adroddiadau adolygu blynyddol hyn gael eu cyhoeddi a'u bod yn parhau i gynnwys crynodeb blynyddol o gynnydd yn erbyn y targed(au) a roddir i'r awdurdod gan Weinidogion Cymru a'r targedau yn y CGCA arfaethedig, gan gynnwys meysydd blaenoriaeth i'r awdurdod lleol ddatblygu ymhellach. Bydd hyn yn fodd o roi hyder i'r cyhoedd fod y CGCAu arfaethedig yn cael eu cyflawni, ac yn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd. Cynigir y dylai Gweinidogion Cymru fod o dan ddyletswydd i gyhoeddi adroddiad cenedlaethol o gynnydd yn erbyn y targedau yn y Cynllun Cenedlaethol hefyd, a hynny bob blwyddyn. Byddai'r adroddiadau blynyddol yn rhoi sail i gynllunio'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer cyfnod 5 mlynedd nesaf. Y mae Cyngor Gwynedd yn gefnogol i'r bwriad o gyhoeddi'r adroddiadau cynnydd hyn, a hynny er sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

O ystyried bod cynnydd mewn addysg Gymraeg wedi bod yn araf mewn rhai ardaloedd o Gymru dros y cyfnod diwethaf, mae Cyngor Gwynedd yn gefnogol i'r bwriad o roi swyddogaeth i Estyn i gynnal adolygiad chwim a chynnig argymhellion mewn sefyllfaoedd lle mae'n ymddangos bod risg na fydd awdurdod yn gwireddu ei dargedau.

Yng Ngwynedd, mae gennym le i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg ymysg dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr, ac yn arbennig mewn rhai ardaloedd o'r sir ble mae heriau yn sgil diffyg sgiliau iaith ymysg y gweithlu i allu darparu addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3 ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gan fod y Polisi Iaith Addysg yn gyffredin i bob ysgol yng Ngwynedd, nid yw rhieni a gofalwyr yng Ngwynedd yn meddu ar ddewisiadau o safbwynt cyfrwng yr addysg yn gyffredinol. Cydnabyddir, fodd bynnag, lle bo amrywiaeth sylweddol yng nghyfrwng y ddarpariaeth mewn ardaloedd eraill o Gymru, mae'n gwneud synnwyr i gymryd camau pendant i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol fel y gall rhieni a gofalwyr wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch addysg eu plant, a'r deilliannau ieithyddol y dymunir ar eu cyfer.

Mae'r Adran Addysg ac ysgolion Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus iawn dros y degawdau yn annog a pherswadio rhieni i fanteisio ar ddarpariaeth drochi Canolfannau Iaith y sir er mwyn cynorthwyo eu plant i gaffael y Gymraeg, ac yn dilyn hynny ymdoddi a ffynnu yng nghyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog Gwynedd. Yn yr un modd, mae ysgolion Gwynedd yn cyfeirio dysgwyr sy'n newyddddyfodiaid, neu dysgwyr fyddai'n elwa o gael hwb ychwanegol gyda'u Cymraeg i fanteisio ar ddarpariaeth a chynhaliadau drochi'r Canolfannau Iaith. Er hynny,

nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad o roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud mwy i hybu darpariaeth trochi hwyr ymhellach.

Mae trochi hwyr yn ddarpariaeth greiddiol i gyfundrefn addysg Gwynedd, oherwydd heb y ddarpariaeth trochi hwyr, ni fyddai modd i ddysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid i Wynedd ymdopi yn gyffredinol o fewn ein cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog. Mewn siroedd eraill gall darpariaeth trochi hwyr alluogi dysgwyr symud tuag at fwy o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfnodau allweddol o'u haddysg, ac mae hynny'n golygu bod cyfleoedd ar bob cam o'r daith addysgol i ddysgwyr allu manteisio ar fwy o addysg cyfrwng Gymraeg, ac mae hynny'n beth da.

Mae Cyngor Gwynedd yn gefnogol o'r bwriad a ystyrir gan Lywodraeth Cymru i ganoli'r gefnogaeth ar gyfer dysgu Cymraeg gan gefnogi unigolion, gweithleoedd ac ysgolion o fewn un corff. Mae'r darlun yn ddarniog ar hyn o bryd, ac yn aml rhaid mynd i chwilio am y ddarpariaeth sydd fwyaf addas ac ar gael yn lleol i gefnogi'r gweithlu sydd yn dymuno gwella eu sgiliau iaith. Fodd bynnag, byddai'n ofynnol i'r corff cenedlaethol fod yn greadigol ac effeithiol gan fedru arloesi a chreu datrysiadau i sefyllfaoedd lleol yn ogystal â chenedlaethol.

Mae'r hyn sydd o fewn y Papur Gwyn yn cyfeirio'n benodol at gynigion fyddai'n gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol (ac yn sgil hynny ysgolion), ac Estyn, gydag ystyriaethau pellach yng nghyd-destun y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er enghraifft. O ystyried fod y cyfrifoldeb statudol yn bresennol ar Awdurdodau Lleol drwy'r CSGA, a rhagor o ddyletswyddau statudol yn debygol drwy'r CGCA a'r drefn gategoreiddio (o'i gwneud yn drefn statudol maes o law) yn disgyn ar awdurdodau, credir y dylai pob ffynhonnell ariannol gan Lywodraeth Cymru sydd at ddibenion cefnogi addysg Gymraeg gael eu cyfeirio'n uniongyrchol i'r awdurdodau yn sgil hynny.

Hyderir fod y cyfleoedd diweddar sydd wedi bod i awdurdodau ymgeisio am grantiau'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, megis y grant trochi hwyr wedi profi gallu'r awdurdodau i dargedu cefnogaeth i'r union lefydd o angen pan fo adnoddau ar gael yn uniongyrchol iddynt. Rhaid cydnabod yr her mae'r amrywiaeth yn sefyllfa'r Gymraeg ar draws Cymru yn ei roi, ac mae'n anodd os nad yn amhosib i gynllunio'n ieithyddol ar lefel eang megis ar sail rhanbarth pan fo sefyllfa'r Gymraeg mor amrywiol o Aberdaron i Shotton e.e. Yr awdurdodau felly sydd yn y sefyllfa orau i allu targedu adnoddau'n briodol, i gynllunio ar lefel micro er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r nod o gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg, lledaenu addysg drochi, a chefnogi sgiliau iaith y gweithlu. O ganlyniad, dylai'r holl ffynonellau ariannol a grantiau sydd ynghlwm â gwireddu dyhead Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ac addysg Gymraeg gael eu cyfeirio'n uniongyrchol i'r awdurdodau yn unol â'r dyletswydd statudol sydd arnynt i wireddu'r nod.

Cydnabyddir, os ydym o ddifri am wireddu cynigion y Bil Addysg Gymraeg yna mae angen gweld gwir newid ar bob lefel yn yr ymrwymiad a'r gweithredu ar draws Cymru. Er mwyn gallu gwireddu hyn a sicrhau'r cynnydd disgwylidig ar y raddfa ddisgwylidig, yna mae'n rhaid cael mwy o adnoddau i awdurdodau allu gweithredu yn fwy effeithiol, yn fwy penodol, ac yn fwy amserol. Os ydym am geisio cyflawni'r gofyn o fewn ein hadnoddau presennol, yna bydd y canlyniadau a wireddir yn debygol o adlewyrchu'r cynnydd presennol, ac nid yw'r cynnydd hwnnw ar draws Cymru'n debygol o alluogi Llywodraeth Cymru i wireddu'r nod o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

Mae Adran Addysg Cyngor Gwynedd yn diolch am y cyfle i gyflwyno sylwadau er ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru ar y ddogfen ymgynghori *Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg* ac yn gefnogol i'r bwriadau a'r cyfeiriad o safbwynt deddfu er mwyn cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg a chyflawni'r nod o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

e-bost/rhif ffôn: **gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk**

Eich cyfeiriad: **Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3EQ**

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **16 Mehefin 2023** i:

Is-adran Cymraeg 2050
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdyd
d CF10
3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: Cymraeg2050@llyw.cymru

Cwestiynau o'r ddogfen 'Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg'

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys mewn Bil ddarpariaeth ynghylch y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r Coleg Cymraeg yn cefnogi'r bwriad i wneud y targed o greu miliwn o siaradwyr yn un statudol. Bydd datganiad o'r fath oddi fewn i ddeddfwriaeth cynradd yn fynegiant clir bod y nod yn flaenoriaeth ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector gyhoeddus yn gyffredinol ar bob lefel o lywodraeth.

Fel y mae, nid yw pob polisi a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ar bob adeg yn gyson gyda'r polisi miliwn o siaradwyr na chwaith penderfyniadau rhai awdurdodau lleol ynghylch cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol. Bydd gosod y darged ar sail statudol yn gosod her i bob sefydliad gydlynllunio a chydweithredu i wireddu'r targed.

Rydym yn cytuno y dylai'r targed fod yn fesuradwy er mwyn gallu monitro cynnydd, neu ddiffyg cynnydd. Nid yw data'r cyfrifiad yn cynnig dadansoddiad soffistigedig o'r amrywiaeth o sgiliau iaith ar draws y boblogaeth ac felly dylai'r Llywodraeth ystyried sut y bydd modd mesur cynnydd ochr yn ochr gyda data'r cyfrifiad mewn modd mwy ystyrlon a rheolaidd dros amser.

Mae angen rhoi ystyriaeth bellach hefyd i ar ba sefydliadau y gosodir y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau newydd y'u gosodir yn y Bil, sut y gellir sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r targedau statudol, mae angen strwythurau monitro ac atebolrwydd cadarn, ac mae angen rhagor o wybodaeth ynghylch beth fydd y canlyniadau i sefydliadau nad sy'n ymgymraedd â'r targedau. Manylwn ar hyn islaw.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n credu y dylai fod rôl bendant gan awdurdodau lleol i weithio tuag at y deiliant sy'n gyfystyr â lefel B2 erbyn 2050? Ac os felly, beth ddylai'r rôl honno fod?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r Coleg yn cefnogi'r amcan y dylai awdurdodau lleol weithio tuag at sicrhau bod deiliant ieithyddol disgyblion yn y sector cyfrwng Saesneg yn codi i B2. Tra'n cefnogi hyn, credwn ar yr un pryd bod angen gosodiad clir yn y ddeddfwriaeth y dylid disgwyl deilliannau uwch gan ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'n allweddol

nad yw'r cyfeiriadau at lefel B2 fel "isafswm" yn arwain at ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn lleihau'r disgwyliadau ar gyfer eu disgyblion.

Cytunwn fod rôl gan awdurdodau lleol (ALI), fel rhan o'u gweithdrefnau cynllunio a'r Cynlluniau Gweithredu newydd arfaethedig, i weithio tuag at y deilliant hwn ar gyfer ysgolion sy'n bennaf addysgu trwy'r Saesneg, a bod angen cynllunio ar gyfer twf ysgolion cyfrwng Cymraeg lle dylai'r deilliant fod yn uwch na B2. Bydd rôl gan y consortia rhanbarthol ac eraill i gefnogi ysgolion i ymgynhyddu at hyn.

Gan fod y Papur Gwyn yn cynnig creu cyfundrefn statudol ar gyfer categorïddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith, ac y byddai creu rheoliadau o'r fath yn cynnig cyfle i ail-edrych ar ddisgrifiadau cyfredol y categorïau, gellid ystyried nodi'r deilliannau ieithyddol disgwylidig, ar ffurf lefelau'r CEFR neu'r Continwmm sgiliau Cymraeg gydol oes, yn y diffiniadau fesul categori. Yn ogystal â rhoi eglurder i rieni ynghylch y deilliannau tebygol ar sail cyfrwng iaith ysgolion, byddai'n rhoi fframwaith a chyfrifoldebau clir i awdurdodau lleol, ac i gyfundrefnau atebolrwydd/hunan-wella ehangach.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n credu y dylai fod rôl bendant gan Weinidogion Cymru i weithio tuag at y deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2 erbyn 2050? Ac os felly, beth ddylai'r rôl honno fod ?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'n gwbl allweddol sicrhau rôl bendant i Weinidogion Cymru i weithio tuag at y deilliannau a gytunir. Dylid gosod targedau addas o fewn y Cynllun Cenedlaethol, a dylid rhoi mecanweithiau mewn lle i sicrhau bod y targedau a chynlluniau dilynol wedi'u rhaedru trwy holl waith Adran Addysg Llywodraeth Cymru (LIC). Byddai gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru yn helpu sicrhau bod twf addysg Gymraeg a symud pob ysgol ar hyd y continwmm ieithyddol yn ganolog i bob datblygiad polisi, a phob cydweithio gyda sefydliadau yn y byd addysg.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig y dylai dyletswydd fod ar Weinidogion Cymru i ddatgan y continwmm sgiliau Cymraeg?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn gyda'r cynnig y dylai dyletswydd fod ar Weinidogion Cymru i ddatgan y continwmm sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn anhepgor ar gyfer yr holl waith cynllunio a

gweithredu dilynol, ac yn darparu dull clir a chyson o fesur cynnydd ar lefel unigol a thorfol. Bydd hyn yn sail cynllunio a mesur nid yn unig ar gyfer y system addysg statudol, ond hefyd ar gyfer addysg bellach, prentisiaethau, addysg uwch a dysgu gydol oes, gan gynnwys mewn gweithleoedd.

Byddai datgan continwmm sgiliau Cymraeg gan Weinidogion Cymru yn rhoi'r statws mwyaf pwerus i'r continwmm ac mae'r cynigion o ran adolygu a diwygio yn y dyfodol, ar sail ymgynghoriad gydag arbenigwyr ym maes caffael a dysgu iaith, i'w croesawu.

Dylid efelychu'r CEFR mor agos â phosib, gan ei fod yn gydnabyddedig yn rhyngwladol. O fewn y ffrâm hwn, rydym yn derbyn y dadleuon dros greu continwmm sy'n benodol i Gymru a'r Gymraeg, o ran ieithwedd a phwyslais.

Bydd cydgysylltu gyda'r Cwricwlwm i Gymru, fel a gynigir yn y Papur Gwyn, gan gynnwys y Camau Cynnydd, yn greiddiol i lwyddiant y gwaith o osod y continwmm ar waith ar lawr gwlad. Yng nghyd-destun y Cwricwlwm, ac mewn cyd-destunau eraill yn ogystal (e.e. cynllunio gweithluoedd dwyieithog) bydd y continwmm yn sail ar gyfer datblygu disgrifiadau ehangach o fedrau ieithyddol. Mae'r Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Ymarferwyr Addysg yn enghraifft o'r math o fframwaith allai gael ei ddatblygu ar gyfer sectorau a sefyllfaoedd eraill, a hynny ar sail y continwmm.

Wrth drafod y continwmm ystyriwn ei bod yn allweddol fod targedau, meincnodau ac adolygiadau cynnydd yn gysylltiedig â gwahanol bwyntiau ar y continwmm. Gellid er enghraifft, o ddilyn ffrâm CEFR, osod nodau ar gyfer y sawl sy'n cyrraedd lefel A (1 a 2), B (1 a 2), C (1 a 2). Mae'n dilyn hefyd y dylid bod yn eglur ar ba lefel yr ystyrir unigolyn yn siaradwr Cymraeg at bwrpas cynllunio ieithyddol gweithluoedd a gwlad ddwyieithog.

Wrth ddatblygu'r continwmm, dylid ystyried pa ddarpariaeth Cymraeg fel pwnc fydd ei hangen er mwyn sicrhau bod niferoedd digonol yn cyrraedd C1/C2 ar y continwmm. Dyma'r lefel sy'n ddisgwyliedig o athrawon cyfrwng Cymraeg a thiworiaid, felly bydd yn allweddol bod y continwmm yn adlewyrchu'r ystod cyfan o sgiliau Cymraeg er mwyn gallu cynllunio darpariaeth addas.

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno y dylid creu cyfundrefn statudol ar gyfer categorieiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn yn gryf gyda'r cynnig hwn. Bydd creu cyfundrefn statudol ar gyfer categorieiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith yn caniatáu diffinio cywir, monitro cyson, ac yn rhoi sail ar gyfer cynnydd yn unol â thargedau ac atebolrwydd lleol a chenedlaethol ar gyfer hynny.

Byddai gweithredu'r cynnig hwn yn ddarn anhepgor o'r tirwedd i gyd-fynd gyda'r cynigion ar gyfer Cynlluniau Gweithredu y Gymraeg mewn Addysg, a'r Cynllun Cenedlaethol.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno y dylid rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu disgrifiadau'r categorïau mewn rheoliadau?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytuno'n gryf. Byddai rheoliadau yn rhoi'r statws statudol angenrheidiol tra'n cadw'r hyblygrwydd i ddiwygio dros amser.

Fel yr rydym wedi nodi uchod, gellid ystyried ychwanegu deilliant ieithyddol disgwylidig, ar sail y CEFR a'r Continwmm Sgiliau Cymraeg Gydol Oes, at ddisgrifiadau'r categorïau er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir gan awdurdodau lleol ac ysgolion, ac er mwyn darparu eglurder i rieni ynghylch y gwahaniaeth disgwylidig rhwng gwahanol gategorïau o ysgolion.

Byddem yn croesawu'r ymgynghori pellach fyddai ynghlwm â'r broses o lunio rheoliadau.

Cwestiwn 7 – Beth yw eich barn am gynnwys isafswm o ran amser a ddarperir yn Gymraeg? Beth yw eich barn am effeithiau isafswm o'r fath ar ysgolion, dysgwyr a staff? A ydych yn rhagweld unrhyw effeithiau eraill?

Sylwadau ategol

Cytunwn gyda'r cynnig parthed isafswm amser, ac y dylai'r isafswm hwnnw gynyddu dros amser.

Bydd angen cefnogaeth ar ysgolion i gyflawni hyn (o brosesau cynllunio i weithredu), ac wrth gwrs bydd angen gweithlu digonol gyda'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Ymhelaethwn ar fater y gweithlu addysg yn ein hateb i gwestiwn 14 islaw.

Dylid hefyd ystyried gosod isafswm o ran darpariaeth ar gyfer y sector uwchradd e.e. bod yn rhaid i ysgolion sydd ar hyn o bryd yn syrthio oddi fewn i Gategori 2 a 3 gynnig Safon Uwch Iaith Gyntaf, a bod yn rhaid i bob ysgol sy'n syrthio oddi fewn i Gategori 1 gynnig o leiaf

Safon Uwch Ail Iaith. Mae sefyllfa'r Gymraeg fel pwnc yn fregus mewn nifer o ysgolion ac awdurdodau lleol ar draws Cymru a byddai sicrhau darpariaeth o'r math hwn yn gam cadarnhaol at sicrhau bod modd i bob disgybl yng Nghymru barhau i ddysgu'r Gymraeg fel pwnc hyd at 18 oed.

Cwestiwn 8 – Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 51 i 56 ynghylch gosod ysgolion mewn categori ieithyddol a rôl gymeradwyo yr awdurdod lleol yn y broses?

Sylwadau ategol

Cytunwn â'r cynigion am y rhesymau sy'n cael eu hamlinellu yn y Papur Gwyn.

Cwestiwn 9 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai pob ysgol gynyddu ei darpariaeth Gymraeg dros amser?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn yn gryf.

Cwestiwn 10 – Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 57 i 60 ynghylch y broses o gynyddu darpariaeth Gymraeg ysgolion?

Cytunwn gyda'r cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn ysgolion sydd ddim eisoes yn rhai cyfrwng Cymraeg penodedig.

Mewn ysgolion uwchradd dylai'r Cynlluniau Gweithredu fanylu ar ba ddarpariaeth Gymraeg fel pwnc a gynigir ar hyn o bryd a dylid dangos yn glir sut mae ysgol sydd ar hyn o bryd o fewn Categori 1 neu 2 yn bwriadu symud tuag at ddarparu TGAU Cymraeg (yn ogystal â TGAU Cymraeg Craidd) a Safon Uwch Iaith Gyntaf.

Cred y Coleg bod angen nodi'n glir ac yn ddiamwys y gall unrhyw ddisgybl gyda sgiliau Cymraeg digonol ddilyn y TGAU Iaith a Llenyddiaeth iaith gyntaf newydd, beth bynnag yw cyfrwng dysgu ei ysgol neu ffrwd (a bod hyn yn ddisgwyliad di-ofyn i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg). Mae disgyblion sy'n siaradwyr Cymraeg, naill ai fel iaith yn y cartref, neu oherwydd iddyn nhw dderbyn eu haddysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg, yn astudio mewn ysgolion a ffrydiau cyfrwng Saesneg ar draws Cymru, a byddai'n rhesymol i'r ysgolion hyn ddisgwyl bod disgyblion sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg digonol yn dilyn cymhwyster sy'n parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith, ac nid yn gadael iddynt aros yn eu hunfan neu ddirywio. Byddai hyn yn gydnaws gyda disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru a'r gofyniad i sicrhau datblygiad parhaus ar hyd continwrm ieithyddol. Wrth gwrs er mwyn gwireddu hyn, mae angen gweithlu gyda sgiliau Cymraeg digonol yn holl ysgolion Cymru a threfniadau cydweithio rhwng ysgolion i sicrhau'r ddarpariaeth briodol. Yn ogystal, byddai angen sicrhau'r llwybrau dilyniant priodol i ddisgyblion wrth iddynt drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd i hwyluso mynediad at y ddarpariaeth a'r cymhwyster iaith gyntaf, yn enwedig mewn ysgolion lle nad y Gymraeg yw'r prif gyfrwng iaith ar hyn o bryd.

Cwestiwn 11 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 62 i 64 ynghylch monitro cynnydd ysgolion?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn gyda'r cynigion ynghylch monitro cynnydd ysgolion ac yn benodol y cynnig o roi rôl i Estyn i ystyried cyflawniad yn erbyn y Cynlluniau Gweithredu fel rhan o'u gwaith arolygu.

Cwestiwn 12 – Beth yw eich barn ynghylch sut ddylai awdurdod lleol benderfynu ai ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai ysgol newydd a sefydlir?

Sylwadau ategol

Cytunwn gyda'r awgrym y dylid gosod rhagdybiaeth mai ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai unrhyw ysgol newydd oni bod fod gan Awdurdod Lleol resymau cadarn dros beidio gwneud hynny.

Cwestiwn 13 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig yn yr adran hon ynghylch rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg (fydd yn gosod cyfeiriad i'r cynlluniau gweithredu lleol statudol)?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn yn gryf gyda'r cynnig i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cynllun Cenedlaethol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg, ond, awgrymwn y dylid ymestyn ffrâm y Cynllun Cenedlaethol i gynnwys:

- sicrhau llwybrau dilyniant clir rhwng addysg orfodol a'r sector ôl-16/addysg uwch;
- a dysgu'r Gymraeg fel pwnc.

Mae lle hefyd i roi ystyriaeth bellach i'r hyn a olygir wrth greu "un system gydlynol".

Manylwn ar y dair agwedd islaw:

1. Cynyddu dilyniant:

Rydym yn croesawu'n fawr y shifft y mae'r Llywodraeth yn dymuno'i gyflawni, sef symud o sefyllfa lle mae gweithgaredd "yn digwydd yn ddarniog mewn gwahanol sectorau ac ar wahanol adeg o fywyd tuag at gysyniad o un system gydlynol". Croesawn hefyd y ffaith bod sgiliau Cymraeg ôl-16 wedi eu cynnwys yn yr adran hon. Wrth baratoi Bil Addysg Gymraeg, dylai'r Llywodraeth roi ystyriaeth pellach i rôl gyflawn y sector ôl-16 ac addysg uwch a phwysigrwydd gwaith y Coleg yn datblygu darpariaeth pynciol a galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan greiddiol o hyn. Dylid ystyried system addysg Cymru, gyda'i holl sectorau amrywiol, fel un cyfannol sy'n rhannu gweledigaeth a chyfrifoldeb o safbwynt darpariaeth cyfrwng Cymraeg, datblygiad sgiliau iaith Gymraeg, a phwysigrwydd sicrhau dilyniant ieithyddol.

Mae data'r cyfrifiad yn dangos bod y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn cynyddu fesul grŵp oedran hyd at 15 oed, ac wedyn yn lleihau, yn gyffredinol, rhwng 16 a 25 oed. Dywed y Llywodraeth mai un o'i brif amcanion 'yw sicrhau bod llai o bobl ifanc yn colli eu sgiliau Cymraeg wrth symud o addysg statudol i addysg bellach/uwch, a bod rhagor ohonynt yn cyrraedd canol eu hugeiniau wedi dal gafael ar yr iaith' (Cymraeg 2050, tudalen 31).

Mae'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog a ddatblygir gan y Coleg, mewn partneriaeth â sefydliadau addysg bellach, addysg uwch a darparwyr prentisiaethau, sy'n ran integredig o gwrs, radd neu gymhwyster, yn elfen gwbl allweddol o'r ymdrech i sicrhau bod sgiliau Cymraeg pob dysgwr ôl-16 yn cael eu datblygu a'u meithrin beth bynnag eu lefel. O ddilyn rhan o gymhwyster neu radd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, mae dysgwyr a myfyrwyr yn dod yn fwy hyderus wrth drin a thrafod eu maes dysgu ac yna'n fwy tebygol maes o law o ddefnyddio'u Cymraeg yn y byd gwaith ac yn ei dro gyfrannu at ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Fel y nodir ym mharagraff 93 y Papur Gwyn, mae diffyg dilyniant ieithyddol ar ôl gadael yr ysgol yn arwain at ddysgwyr yn colli hyder yn eu sgiliau Cymraeg a'u gallu i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac o ganlyniad, mae'n sylweddol anoddach i'w denu yn ôl at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg wrth astudio neu yn y gweithle.

O osod pwyslais yn y Papur Gwyn a'r Cynllun Cenedlaethol ar y cyfnodau statudol yn unig, mae cyfle pwysig wedi'i golli i ddatblygu a gwella cyfraddau dilyniant hollbwysig o'r cyfnod statudol i'r ôl-statudol, ac i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ffocws penodol ar y cam

hwnnw yng ngyrfa myfyrwyr. Mae angen sicrhau bod cydweithio'n digwydd gyda'r colegau i greu llwybrau dilyniant galwedigaethol 14-19, ac mae angen bod pwyslais yn ogystal ar sicrhau gymaint o ddilyniant ieithyddol â phosib oddi fewn i ysgolion wrth bontio o'r cyfnod statudol i'r cyfnod ôl-16.

Hoffem weld y Cynllun Cenedlaethol a'r Cynlluniau Gweithredu lleol dilynol felly yn ymestyn eu pwyslais i gynnwys dilyniant rhwng addysg statudol ac addysg/hyfforddiant/gwaith ôlstatudol. Gallai hynny gynnwys gofyniad i nodi data cyfredol a thargedau meintiol ar gyfer cynyddu cyfraddau dilyniant, a gofyniad i nodi'r trefniadau cydweithio perthnasol gydag amrywiaeth o bartneriaid.

Mae argymhellion 11 a 12 adroddiad diweddar y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru ar 'Y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg' yn ategu rôl bwysig ALI yn sicrhau llwybrau dilyniant clir o'r sector statudol i'r sector ôl-orfodol.

Mae sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a rôl statudol y Coleg i gynghori'r Comisiwn ar ei ddyletswyddau perthnasol yn ymwneud â'r Gymraeg, yn cynnig cyfle euraid i godi'r disgwyliadau a osodir ar y sector ôl 16/addysg uwch o ran y Gymraeg. Dylai'r Bil Addysg Gymraeg a'r Cynllun Cenedlaethol adlewyrchu pwysigrwydd y sectorau hyn o ran gwireddu'r nodau trosfwaol a amlinellir yn y Papur Gwyn a rôl y Coleg yn hynny o beth wrth arwain ar y gwaith. Yn dilyn penderfyniad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i ddynodi'r Coleg, byddai'n addas cyfeirio at y dynodiad, a rôl statudol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynghori'r Comisiwn, yn nodiadau esboniadol y Bil Addysg Gymraeg. Byddai hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod llwybrau dilyniant clir ar gyfer addysg Gymraeg a dwyieithog o'r sector statudol i'r sector ôl-orfodol.

2. Cydweithio i greu un system gydlynol:

Mae'r Coleg yn croesawu bwriad y Llywodraeth i gynnig gwersi Cymraeg am ddim i bobl rhwng 16 a 25 oed. Er mwyn gwireddu "un system gydlynol" ac er mwyn sicrhau bod "yr holl ddarnau o'r jigso yn cyd-blethu a bod dilyniant ieithyddol yn digwydd ar hyd y system addysg", fel yr amlinellir yn y Papur Gwyn, rhaid sicrhau bod y cynlluniau i gynnig gwersi Cymraeg am ddim i'r garfan hon yn gydlynus gyda strategaethau'r Coleg ar gyfer y sectorau addysg bellach, prentisiaethau ac addysg uwch, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg a lanswyd gan y Llywodraeth yn 2019, a Chynllun Academiaidd Addysg Uwch y Coleg.

Rydym yn falch iawn o'r cydweithio agos a pharod rhwng y Ganolfan Dysgu Cymraeg, sy'n arwain ar sicrhau gwersi Cymraeg am ddim, a'r Coleg, sy'n arwain ar ddatblygu darpariaeth pynciol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ac ar ddarpariaeth sgiliau iaith oddi fewn i gymwysterau ôl-16 perthnasol. Rydyn ni a'r Ganolfan yn awyddus i ddyfnhau'r cydweithio dros y blynyddoedd i ddod ac yn gweithio ar gynlluniau ar y cyd er mwyn cyfrannu at un strategaeth gydlynus.

3. Gwarchod ac ymestyn y Gymraeg fel pwnc:

Mae'r Coleg yn rhannu pryderon y Llywodraeth ynghylch y cwmp yn y nifer o ddisgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at Safon Uwch, ac o ganlyniad yn mynd ymlaen i astudio'r Gymraeg fel pwnc gradd yn y brifysgol. Dylai'r Llywodraeth ystyried pa fesurau y gellid eu cynnwys oddi mewn i'r Cynllun Cenedlaethol a'r Cynlluniau Gweithredu, trwy'r Bil Addysg Gymraeg, i warchod sefyllfa'r Gymraeg fel pwnc ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod mynediad gan bawb ato.

Cwestiwn 14 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 73 a 74 i bennu targedau cenedlaethol ynghylch y gweithlu addysg a'u cynnwys yn y Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	✓
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	---

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno gyda phwysigrwydd gosod targedau yn ymwneud â'r gweithlu addysg yn rhan o'r Cynllun Cenedlaethol, gan gynnwys ar gyfer nifer yr athrawon fydd eu hangen. Ond, rhaid i dargedau wneud mwy na dangos bod "bwriad clir gan Weinidogion i gynyddu nifer yr athrawon" ac asesu'r niferoedd sydd angen; rhaid i dargedau fod wedi eu gosod ar y sefydliadau cywir, a rhaid iddynt fod yn rhai ystyrlon a rhwymol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Sicrhau gweithlu addysg digonol gyda'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol yw'r prif ffactor llwyddiant critigol (*critical success factor*) ar gyfer gwireddu amcanion y Papur Gwyn. Yn ddios, heb y gweithlu angenrheidiol ni fydd modd cyflawni amcanion clodwiw y Papur Gwyn.

Mae'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd yn un argyfyngus: mae nifer uchel o athrawon cyfrwng Cymraeg yn agosáu at oed ymddeol; mae nifer uchel yn gadael y proffesiwn o fewn ychydig flynyddoedd o ymuno; ac mae llai na hanner y niferoedd sydd eu hangen yn hyfforddi i ddod yn athrawon bob blwyddyn. Mae data'r Llywodraeth yn dangos bod tua 250 yn hyfforddi bob blwyddyn tra bod y targedau presennol yn galw am dros 550. Byddai gwireddu amcanion y Papur Gwyn yn gofyn am osod targedau dipyn yn uwch eto. Mae penaethiaid ysgolion yn adrodd problemau dybryd yn llenwi swyddi a does dim arwyddion bod y sefyllfa am newid er gwell yn y dyfodol agos.

Nid yw'r targedau sydd eisoes yn bodoli sy'n ymwneud â'r gweithlu addysg Cymraeg a geir yn "Cymraeg 2050", a gofyniad y Cyngor Gweithlu Addysg (CGA) ar y darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) i sicrhau bod 30% o'u myfyrwyr yn paratoi i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn dargedau statudol. Nid ydynt wedi eu gwireddu hyd yn hyn, ac mae'n ymddangos nad oes unrhyw ganlyniadau wedi llifo o fethu cwrdd â'r targedau hyn. Rhaid gofyn i ba raddau y byddai gwneud y targedau hyn yn rhai statudol yn newid y sefyllfa heb osod fframwaith atebolrwydd cadarn iawn mewn lle a chanlyniadau ar sefydliadau nad sy'n gwireddu'r gofynion.

Mae prinder hefyd o athrawon o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen gosod targedau penodol a sicrhau bod ymdrechion bwriadus i fynd i'r afael â hyn. Mae sicrhau bod gan ddisgyblion o'r cefndiroedd hyn fodolau rôl yn y gweithlu Cymraeg mewn addysg yn allweddol.

Cyfrifoldebau dros gynllunio'r gweithlu addysg Cymraeg:

Ar hyn o bryd mae'r cyfrifoldebau ar gyfer y maes hwn wedi eu rhannu ymhlith nifer o sefydliadau gan gynnwys y Llywodraeth, Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (y prifysgolion), y Consortia rhanbarthol, y Coleg Cymraeg

Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg, ac eraill. Tra bod rôl gan nifer o sefydliadau i'w chwarae, a bod y cydweithio i'w groesawu, mae maint yr her sy'n wynebu'r sector o ran prinder athrawon yn gofyn am arweiniad clir a chadarn ar lefel genedlaethol i yrru'r agenda yn ei flaen. Mae'r cyfrifoldeb am hyn yn gorwedd gyda'r Llywodraeth ac mae angen i'r Llywodraeth sicrhau ei fod yn archwilio pob dull posib o fewn ei bwerau i fynd i'r afael â'r heriau gan gynnwys gosod dyletswyddau arweiniol clir ar sefydliad neu sefydliadau penodol.

Does dim manylder yn y Papur Gwyn ynghylch ar bwy y bwriedir gosod y targedau cenedlaethol, beth fyddai'r fframwaith mwyaf addas i sicrhau atebolrwydd cadarn, a beth fyddai canlyniadau peidio cyrraedd y targedau. Cyn bwrw ati i ddrafftio'r Bil, gofynnwn i'r Llywodraeth roi ystyriaeth lawn i'r ffactorau hyn, mewn cydweithrediad gydag Adran Addysg y Llywodraeth sy'n gyfrifol am sicrhau gweithlu digonol.

Ymhellach, gofynnwn i'r Llywodraeth gynnal asesiad llawn o'r pwerau sydd ganddo o fewn deddfwriaeth bresennol, gan gynnwys Deddf Addysg (Cymru) 2014 ag unrhyw orchmynion dilynol megis [y gorchymyn hwn](#) yn 2017, a'r [diwygiad hwn](#) yn hwyrach yr un flwyddyn, i osod cyfarwyddiadau ar sefydliadau, megis y CGA, i weithredu mewn modd penodol sy'n gydnaws gydag amcanion y Papur Gwyn. Dylai'r asesiad ateb y cwestiynau canlynol: Pa bwerau sydd eisoes gan Weinidogion Cymru i osod cyfarwyddiadau ar sefydliadau eraill i weithredu ym maes y gweithlu addysg Gymraeg?

- I ba raddau mae'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn gosod disgwyliadau a chyfarwyddiadau clir ar sefydliadau allanol i arddel cyfrifoldebau yn ymwneud â chynllunio gweithlu Cymraeg mewn addysg digonol?
- Beth yw'r mecanwaith ar gyfer gosod y disgwyliadau hyn a pha mor dryloyw yw'r broses?
- I ba raddau mae sefydliadau perthnasol yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau gan Weinidogion yn y maes hwn?
- Yng nghyd-destun nodau ac amcanion y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig, oes angen cryfhau'r cyfarwyddiadau a osodir gan Weinidogion ar sefydliadau perthnasol?
- Beth yw'r fframwaith atebolrwydd mwyaf addas i sicrhau fod sefydliadau yn gweithredu yn unol â dyheadau a disgwyliadau Gweinidogion?

Rôl yr Awdurdodau Lleol:

Mae angen gwahaniaethu'n glir rhwng y targedau cenedlaethol y cyfeirir atynt uchod er mwyn ymggyrraedd at y niferoedd angenrheidiol, a'r bwriad i'w wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddadansoddi ac adrodd ar eu hanghenion tymor byr/canolig/hir ar gyfer y gweithlu Cymraeg mewn addysg. Tra'i fod yn hollol resymol i ddisgwyl i awdurdodau lleol gynnal asesiadau o'r angen am athrawon yn lleol, ac i ddisgwyl iddynt fwydo'r canlyniadau i Lywodraeth Cymru er mwyn eu gosod yn y Cynllun Cenedlaethol, mae'n gamarweiniol i gyfeirio at rhain fel targedau gan nad oes gan yr ALI bwerau i osod neu ymggyrraedd at unrhyw darged o'r fath. Ar y llaw arall, byddai'n rhesymol ystyried gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, mewn partneriaeth ag eraill, i barhau i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu presennol – ac i fod yn atebol am hynny.

Rôl y Coleg Cymraeg wrth ddatblygu'r gweithlu Cymraeg mewn addysg:

Yn hanesyddol nid yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Coleg fod yn gyfrifol am y maes hyfforddi athrawon yn yr un modd ag y mae ganddo gyfrifoldebau i ddatblygu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ym mhob maes arall o fewn addysg uwch. Yn sgil cyhoeddi Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn 2022, mae'r Coleg wedi derbyn rhai cyfrifoldebau penodol gan gynnwys:

Datblygu'r Ilif o athrawon cyfrwng Cymraeg dan hyfforddiant drwy ddarpariaeth i israddedigion a chefnogaeth i'r Gymraeg ar Safon Uwch;

- Meithrin sgiliau iaith israddedigion er mwyn paratoi ar gyfer AGA;
- Cydweithio â Llywodraeth Cymru a CGA i hyrwyddo addysgu fel gyrfa;
- Ymgymryd â chymedroli sgiliau iaith athrawon dan hyfforddiant drwy gyllid grant Llywodraeth Cymru;
- Darparu cyngor a chefnogaeth i CGA a phartneriaethau AGA i ddatblygu AGA cyfrwng Cymraeg.

Sylwn nad yw'r Coleg wedi ei restru ym mharagraff 74 o'r Papur Gwyn fel un o'r rhanddeiliaid perthnasol yn y maes cynllunio gweithlu. Byddai'n addas adlewyrchu rôl y Coleg a'r cyfrifoldebau a amlinellir yng Nghynllun y Gweithlu yn yr adrannau perthnasol hynny o'r Bil arfaethedig ac yn y nodiadau esboniadol.

Mae gan y Coleg gryn brofiad o gydweithio'n agos gyda sefydliadau statudol megis Estyn, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Chymwysterau Cymru. Mae'n harbenigedd wrth ddatblygu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog, a'n gallu i adnabod y camau strategol sydd angen eu cymryd i weld cynnydd cynaliadwy, yn cael eu cydnabod gan y sefydliadau hyn. Yn achos AaGIC rydym wedi cael cryn lwyddiant yn dylanwadu ar y corff i sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn rhan greiddiol o gyrsiau gradd y proffesiynau iechyd ym mhrifysgolion Cymru ac rydym bellach yn chwarae rhan allweddol ym mhrosesau AaGIC i fonitro cyflawniad y prifysgolion yn erbyn y cytundebau a osodir.

Fel y nodir uchod, bydd gennym rôl allweddol pan sefydlir y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i ddarparu cyngor statudol ar ei ddyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg ac rydym yn croesawu hyn yn fawr iawn. Byddai'r Coleg yn barod ac yn awyddus i ddatblygu perthynas gydweithio a chynghori ffurfiol yn yr un modd gyda'r CGA a byddem yn barod i drafod opsiynau ar sut i wireddu hyn gyda'r Llywodraeth a sefydliadau eraill.

Mae'r Coleg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg wedi bod yn cydweithio'n agos ar nifer o gynlluniau ers sawl blwyddyn gan gynnwys Cymraeg Gwaith yn y sectorau addysg bellach, prentisiaethau ac addysg uwch. O ganlyniad i'r ffaith bod y Ganolfan wedi derbyn cyfrifoldebau ychwanegol yn ddiweddar i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim i'r grŵp oedran 16-25, ynghyd â'u cyfrifoldebau newydd wrth ymwneud â'r gweithlu addysg presennol, a chynlluniau'r Coleg i ddatblygu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog i gynulleidfaoedd newydd gan gynnwys y rheiny nad sy'n rhugl, yn ogystal â'n hymwneud gydag addysg gychwynnol athrawon, mae'r angen i gydweithio dros y blynyddoedd nesaf yn fwy allweddol nag erioed. Mae'r ddau sefydliad wedi cytuno yn ddiweddar i ddatblygu cynllun ar y cyd ar gyfer y maes hyfforddi athrawon a gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg ac edrychwn ymlaen at allu rhannu rhagor o fanylion gyda phartneriaid dros y misoedd nesaf.

Cwestiwn 15 – Ydych chi'n cytuno bod y deilliannau a nodir ym mharagraff 82 yn parhau i gynnig ffocws clir i'r cynllunio cenedlaethol a lleol?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	✓
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	---

Sylwadau ategol

Byddai'r Coleg am weld yr addasiadau canlynol i'r deilliannau:

Deilliant 3

Fel y nodir yn ein hymateb i gwestiwn 13 uchod, dylai'r deilliant hwn gynnwys dilyniant tu hwnt i addysg statudol. Dylid gosod cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol i gynllunio a hyrwyddo llwybrau i addysg ôl-orfodol a sicrhau bod ysgolion yn cael eu hannog i gynnig yr ystod mwyaf eang posib o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at ac yn cynnwys Safon Uwch er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd myfyrwyr sy'n parhau â'u haddysg i'r brifysgol yn dewis astudio rhan o'u cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Deilliant 4

Dylai'r deilliant ar gyfer mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn ddau ddeilliant ar wahân. Byddai hyn yn galluogi i fesuryddion penodol gael eu datblygu a fyddai'n addas ar gyfer ysgolion mewn categorïau gwahanol ac mae data ar astudio Cymraeg fel pwnc yn bwysig hefyd er mwyn cynllunio'r gweithlu.

Rôl Awdurdodau Lleol:

Tu hwnt i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu addysg presennol, nid ydym yn cytuno bod rôl gan yr Awdurdodau Lleol i gynllunio'r gweithlu addysg yn lleol fel y cyfeirir ato ar ddechrau pennod 5 ac ym mharagraff 80 y Papur Gwyn. Fel y nodwyd yn ein hateb i gwestiwn 14, rydym yn llwyr gytuno â'r angen i ofyn i ALI gynnal asesiadau o'r angen am athrawon yn lleol, ac i ddisgwyl iddynt fwydo'r canlyniadau i Lywodraeth Cymru er mwyn eu gosod yn y Cynllun Cenedlaethol, ond mae'n gamarweiniol i gyfeirio at rhain fel targedau gan nad oes gan yr ALI bwerau i osod neu ymgynhyrfaed at darged o'r fath.

Cwestiwn 16 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) ar ôl 5 mlynedd i alinio gydag adroddiad cynnydd 5 mlynedd y Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae hyn i'w weld yn addas.

Cwestiwn 17 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai targedau y Gymraeg mewn addysg gael eu gosod ar awdurdodau lleol gan Weinidogion Cymru?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytuno ond dylid rhoi ystyriaeth bellach i sut i wneud y targedau yn rhai rhwymol a beth fyddai'r canlyniadau i ALI nad sy'n cyrraedd eu targedau.

Cwestiwn 18 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i Weinidogion Cymru gomisiynu adolygiad allanol o gynnwys Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) drafft pan fo'n briodol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytuno

Cwestiwn 19 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Fel yr amlinellwyd yn ein hateb i gwestiwn 14 uchod, rydym yn cytuno gyda chynnwys targedau yn y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer recriwtio athrawon Cymraeg fel pwnc ac i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn fodd o roi grym statudol i'r targedau. Ond, mae angen cryn dipyn mwy o eglurder ar bwy mae'r targedau hyn yn cael eu gosod, a beth yw'r systemau atebolrwydd mewn perthynas â monitro cynnydd yn erbyn y targedau. Cyfeiriwn at ein hateb i gwestiwn 14 a'n hargymhellion o ran cynnal asesiad o bwerau presennol y Llywodraeth i gyfeirio sefydliadau allanol, a hefyd ein hawgrym o roi rôl mwy arweiniol i'r Coleg i gynghori sefydliadau partner i arddel eu cyfrifoldebau yn ymwneud â'r Gymraeg.

Rydym yn llwyr gytuno bod modd gwella'r broses o gynllunio'r gweithlu addysg Gymraeg, a bod rôl pwysig i'r Cynllun Cenedlaethol, gyda'r potensial i sefydlu trefn genedlaethol gyda gofynion a chyfrifoldebau ar awdurdodau lleol i sicrhau cysondeb o ran casglu a dadansoddi data, a bwydo lan i'r lefel genedlaethol mewn ffordd gydlynus – i greu rhagamcanion manwl o'r niferoedd ychwanegol y bydd eu hangen, gan gynnwys manylder ynghylch sectorau, pynciau, lleoliadau ac ati. Mae cysondeb yn hyn o beth yn allweddol, ac mae angen i'r cwbl fwydo i'r lefel genedlaethol er mwyn sicrhau bod cynllunio strategol yn digwydd ar sail y data.

Ond mae angen bod yn gwbl glir faint o'r gwaith o gynyddu niferoedd athrawon Cymraeg sydd dan reolaeth a dylanwad awdurdodau lleol (e.e. datblygu sgiliau iaith y gweithlu presennol) a faint sydd tu hwnt i'w rheolaeth (e.e. Addysg Gychwynnol Athrawon a'r prosesau hyrwyddo a recriwtio cysylltiedig). Yn dilyn hynny, mae angen bod yn glir pa dargedau/cyfrifoldebau fyddai'n berthnasol i'r awdurdodau lleol, a pha dargedau a chyfrifoldebau sy'n cael eu cyfeirio at sefydliadau eraill. Tra bod disgwyl i awdurdodau lleol asesu faint o athrawon sydd angen arnyn nhw i wireddu eu Cynlluniau Gweithredu yn gwbl resymol, ni ddylid cyfeirio at hyn fel gosod targedau. Heblaw am gefnogi sgiliau iaith y gweithlu presennol, nid yr ALI sy'n gyfrifol am gynyddu'r nifer o athrawon Cymraeg ac felly mae galw'r ymarferiad yn un o osod targedau yn ddi-ystyr.

Y Fframwaith Sgiliau Iaith i Ymarferwyr Addysg:

Yn ganolog i'r gwaith hyn i gyd, y mae'r gallu i fesur yn gywir beth yw lefel sgiliau iaith ymarferwyr presennol a darpar ymarferwyr. Mae rôl gwbl ganolog gan y Fframwaith Sgiliau Iaith i Ymarferwyr Addysg i'w chwarae yn y broses hon; gan ei fod yn seiliedig ar y CEFR, mae'n debygol iawn y bydd yn gwbl gydnaws â'r Continwmm Sgiliau Cymraeg arfaethedig. Byddai hynny'n cyd-fynd yn llwyr â'r hyn a amlinellir ym mharagraff 99 ynghylch yr angen am ganllawiau er mwyn sicrhau cysondeb.

Er bod y Fframwaith yn cael ei ddefnyddio yng nghyd-destun cyrsiau AGA ar hyn o bryd, mae wir angen i'r system gyfan fod yn fwy cyfarwydd ag e – er mwyn i ysgolion fedru cwblhau Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Addysg (SWAC) yn gywir, ac er mwyn i awdurdodau lleol fedru rhoi rhagamcanion cywir o anghenion eu gweithluoedd. Fel arall, mae perygl nad yw'r data a ddarperir o'r gwahanol brosesau hyn yn ystyrllon, gan wanhau'r cynllunio strategol all ddigwydd ar ei sail. Yn ddelfrydol, mae angen i'r Fframwaith Cymwyseddau Iaith gael lle o fewn y Pasbort Dysgu Proffesiynol (tu hwnt i AGA), a bod yn sail ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn y Safonau Proffesiynol, a hynny gydol gyrfu.

Ystyriaeth i'r Gymraeg fel pwnc wrth gynllunio gweithlu:

Ar y cyfan mae diffyg ystyriaeth yn y Papur Gwyn i rôl y Gymraeg fel pwnc wrth gynllunio'r gweithlu addysg yn nhermau yr athrawon fydd eu hangen ond hefyd yn nhermau y tiwtoriaid fydd eu hangen i uwchsgilio'r gweithlu presennol (paragraff 94). Yn allweddol i sicrhau athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg y mae sicrhau bod digon o ddysgwyr yn astudio'r Gymraeg i safon uchel. Gofynnwn i'r Llywodraeth ystyried gosod dyletswydd ar ALI i sicrhau bod ysgolion yn cynnig y Gymraeg fel pwnc.

Cwestiwn 20 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 100 i 102 ynghylch cyhoeddi adroddiadau ar weithredu'r Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau) a chynnydd yn erbyn targedau'r Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytuno

Cwestiwn 21 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi swyddogaeth i Estyn i gynnal adolygiad chwim a chynnig argymhellion mewn sefyllfaoedd lle mae'n ymddangos bod risg na fydd awdurdod yn gwireddu ei dargedau?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytuno

Cwestiwn 22 – Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol i weithredu eu Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau)?

Dylid rhoi ystyriaeth bellach i sut i wneud y targedau yn rhai rhwymol a beth fyddai'r canlyniadau i ALI nad sy'n cyrraedd eu targedau.

Cwestiwn 23 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg i rieni a gofalwyr?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytuno.

Yn unol â'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil bydd dyletswydd ar y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg:

Rhaid i'r Comisiwn

- (a) annog y galw am addysg drydyddol Gymreig a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfranogiad ynddi;
- (b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol Gymreig a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb y galw;
- (c) annog darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg
 - (i) gan ddarparwyr cofrestredig yng Nghymru, a
 - (ii) gan bersonau eraill sy'n darparu addysg drydyddol a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir fel arall ganddo

Bydd yn allweddol bod ALI yn hyrwyddo negeseuon ymhlith rhieni a gofawyr ynghylch llwybrau dilyniant Cymraeg a dwyieithog i'r sector ôl-orfodol mewn modd sy'n gydlynus gyda'r Comisiwn a gyda'r Coleg fel y corff sydd wedi ei ddynodi i gynghori'r Comisiwn ar ei ddyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg. Fel y nodir uwchlaw, dylai nodiadau esboniadol y Bil Addysg Gymraeg gyfeirio at ddyletswyddau'r Comisiwn parthed y Gymraeg a rôl cynghori statudol y Coleg.

Ymhellach, bydd yn allweddol sicrhau bod ymgyrchoedd hyrwyddo yn cael eu targedu'n eang a bod prosiectau penodol yn cael eu datblygu, yn seiliedig ar ymchwil, i ddenu mwy o bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd yn allweddol i ALI sicrhau bod deunyddiau ac adnoddau sy'n cael eu datblygu i hyrwyddo addysg Gymraeg yn gynhwysol ac yn adlewyrchu – yn weledol – amrywiaeth ein cymunedau a byddai cynnwys astudiaethau achos bwriadol amrywiol ac ati yn gymorth i'r perwyl hwn.

Cwestiwn 24 – Pa gefnogaeth y dylai Weinidogion Cymru ei chynnig o ran hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg?

Sylwadau ategol

Ar gyfer ymgyrchoedd cyfathrebu o'r math hwn mae mantais mewn cytuno ar brif negeseuon (ar sail ymchwil i'r hyn sy'n dylanwadu) ar lefel genedlaethol ac i adnoddau canolog gael eu creu a all gael eu teilwra a'u haddasu i ardaloedd lleol. Gellid rhagweld rôl gydlynus hefyd ar lefel genedlaethol i'r llywodraeth er mwyn rhannu arfer dda o ddulliau effeithiol o ledaenu'r wybodaeth.

Mae angen cyfarwyddid cenedlaethol hefyd i hyrwyddo addysg Gymraeg mewn ardaloedd ble yn hanesyddol nid yw mynediad at y ddarpariaeth wedi bod yn hawdd i rieni, gwarcheidwaid a'u plant. Bydd yn allweddol bod arweiniad yn dod gan y Llywodraeth ar yr angen i ALI sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei hyrwyddo yn eang ac yn llwyddo denu mwy o blant o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Er mwyn gwneud hyn, rhaid ffocysu ar ardaloedd lleol penodol, a dalgylchoedd. Yn

hanesyddol, canran bach iawn o blant o gefndiroedd Du Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, yn aml gan nad yw'r ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi eu lleoli mewn ardaloedd lle mae canran uchel o blant o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn byw. Pan mae ysgolion newydd cyfrwng Cymraeg yn cael eu sefydlu, nid oes digon o waith yn digwydd chwaith er mwyn denu plant Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac felly mae'r tangynrychiolaeth yn parhau. Mae angen hefyd i weithio gyda rhieni a gwarcheidwaid gan mai nhw sy'n gyfrifol am ddewis cyfrwng addysg eu plant.

Cwestiwn 25 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo darpariaeth trochi hwyr i rieni, gofalwyr a dysgwyr?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytuno.

Mae angen sicrhau fod rhieni sy'n symud i sir newydd sydd â phlant sydd heb hyd y pwynt hynny dderbyn addysg Gymraeg, dderbyn gwybodaeth lawn am y ddarpariaeth drochi hwyr a llwyddiant y ddarpariaeth honno.

Mae angen i'r gwasanaeth trochi fod ar gael a chael ei hyrwyddo mewn modd rhagweithiol hefyd i'r rheiny sy'n newid eu meddyliau ac yn dangos diddordeb mewn addysg Gymraeg ar ôl i'w plant ddechrau mewn ysgol sy'n bennaf ddysgu drwy'r Saesneg. Gallai codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth drochi fod yn arf i ddenu yn ôl y rheiny sydd wedi penderfynu peidio anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Cwestiwn 26 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu trochi hwyr i ddysgwyr?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytuno

Cwestiwn 27 – Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai cefnogaeth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes, gan gynnwys addysg ysgolion, gael ei chanoli o fewn un sefydliad?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	✓
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	---

Sylwadau ategol

Cytunwn gyda'r egwyddor bod angen perchnogaeth yn ganolog i ddatblygu'r continwwm sgiliau Cymraeg, a bod angen cefnogaeth ar ysgolion wrth iddynt symud ar hyd y categorïau ieithyddol o ran gwella sgiliau iaith disgyblion ac athrawon a chynyddu cyfrwng y ddarpariaeth.

Tra mai'r Ganolfan Dysgu Cymraeg sy'n arbenigo mewn caffael sgiliau iaith Gymraeg, ar hyn o bryd ar gyfer oed 16 ac i fyny, y Coleg Cymraeg yw'r corff sy'n arbenigo mewn datblygu a chynyddu darpariaeth bynciol trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector ôl-16 ac addysg uwch. Dylai'r Bil Addysg Gymraeg gydnabod bod y ddwy elfen – o gaffael sgiliau iaith a datblygu darpariaeth bynciol – yn gwbl allweddol wrth wireddu nodau'r Papur Gwyn o gynyddu addysg Gymraeg a gwella deiliannau ieithyddol disgyblion ac athrawon yn y sector cyfrwng Saesneg. Dylid ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sectorau ôl-16 ac addysg uwch fel rhan o'r continwwm sy'n parhau i ddatblygu sgiliau iaith, a hyder i ddefnyddio'r iaith, mewn cyd-destunau proffesiynol.

Ers 2011 mae'r Coleg wedi bod yn cydweithio gyda phrifysgolion i ddatblygu darpariaeth bynciol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg sydd am astudio rhan neu'r cyfan o'u gradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llwyddiant y Coleg, mewn cydweithrediad gyda phrifysgolion yn amlwg: mewn ychydig dros ddegawd ceir rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg ym mhob un o'r 36 "prif grŵp pwnc" a restrir yng Nghynllun Academaidd Addysg Uwch y Coleg (o gymharu â 12 yn 2011), ac mae modd astudio o leiaf pump credyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn 75 allan o 80 o'r pynciau academaidd o fewn y prif grwpiau pwnc hyn. Yn fwy diweddar mae Cynllun Academaidd Addysg Uwch y Coleg yn amlinellu ein nod i ymestyn addysg uwch Gymraeg a dwyieithog i gynulleidfaoedd newydd gan gynnwys y rheiny nad sy'n rhugl a bydd y gwaith hyn yn flaenoriaeth i'r Coleg dros y cyfnod nesaf.

Yn 2019 ehangwyd cyfrifoldebau'r Coleg i gynnwys datblygu darpariaeth bynciol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog yn y meysydd addysg bellach a phrentisiaethau, a hynny ar gyfer dysgwyr a phrentisiaid ar bob lefel o'r [pyramid iaith](#), gan gynnwys y rheiny nad sy'n siarad Cymraeg. Amlinellir y cyfrifoldebau hyn yn llawn yn y [Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg](#) a lanswyd gan y Gweinidog Addysg ar y pryd, Kirsty Williams, yn Ionawr 2019. Ers derbyn cyllideb ychwanegol gan y Llywodraeth, trwy'r Cytundeb Cydweithio, i fuddsoddi mewn darpariaeth, mae darpariaeth ddwyieithog bellach ar gael yn y meysydd blaenoriaeth sef Iechyd a Gofal, Gwasanaethau Cyhoeddus, Gofal Plant, a Chwaraeon ym mhob coleg addysg bellach yng Nghymru, gyda darpariaeth Amaeth a Gofal Anifeiliaid ddwyieithog mewn colegau sy'n cynnig cymhwyster yn y maes. Mae cynlluniau ar y gweill i ymestyn i bynciau eraill megis Busnes a Diwydiannau Creadigol yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24.

Yn achos y Gymraeg fel pwnc, ers 2018/19 mae'r Coleg hefyd wedi bod yn rhan allweddol o

Gynllun Gweithredu: Hyrwyddo'r Gymraeg fel Pwnc, gan gefnogi ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a'r rhai sy'n bennaf yn dysgu trwy gyfrwng y Saesneg i gynnal darpariaeth Safon Uwch, cynnig profiadau i gyfoethogi'r dysgu, a hyrwyddo'r pwnc mewn amryfal ffyrdd.

Mae gan y Coleg gyfrifoldebau eang ac arbenigedd hefyd mewn datblygu adnoddau i gefnogi darpariaeth bynciol Cymraeg a dwyieithog, ar gyfer pobl sy'n meddu ar bob lefel o sgiliau iaith, ac rydym wedi datblygu llwyfan gydnabyddedig i letya'r adnoddau hynny ar-lein trwy'r [Porth Adnoddau](#).

Rydym hefyd yn gyfrifol am redeg cynlluniau i gefnogi'r gweithlu addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau presennol i ddatblygu eu sgiliau iaith a hefyd i'w cefnogi i gyflwyno darpariaeth Cymraeg a dwyieithog yn yr ystafell ddosbarth megis Cymraeg Gwaith (mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg), a Chynllun Hyfforddi a Mentora Sgiliaith,

Rydym wedi cyfeirio yn ein hateb i gwestiwn 14 uchod at ein rôl gynyddol yn y gwaith o gynllunio'r gweithlu Cymraeg mewn addysg, a'r rôl y dymunwn ei ddatblygu a'i ffurfioli ymhellach gyda phartneriaid allweddol eraill megis Cyngor y Gweithlu Addysg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg.

Mae sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a rôl statudol y Coleg i gynghori'r

Comisiwn ar ei ddyletswyddau yn ymwneud ag annog, hyrwyddo a datblygu darpariaeth Gymraeg yn gam arall allweddol o ran esblygiad rôl y Coleg. Mae trefniadau mewn lle i drafod ein perthynas gyda'r Comisiwn a'r Llywodraeth wrth iddo gael ei sefydlu. Mae statws statudol y dynodiad yn allweddol ac mae'r Coleg wrthi'n ystyried oblygiadau'r dynodiad i ni fel sefydliad.

Mae ein rôl yn y maes ymchwil cyfrwng Cymraeg wedi datblygu dros y degawd diwethaf a gyda sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a'r ffaith bod y dynodiad yn cynnwys cynghori'r Comisiwn ar faterion yn ymwneud ag ymchwil cyfrwng Cymraeg, bydd ein hymwneud yn y maes hwn yn debygol o ymestyn a dyfnhau dros y cyfnod nesaf. Mae'r

Coleg eisoes yn gweithredu nifer o gynlluniau i gefnogi a hwyluso ymchwil cyfrwng Cymraeg, e.e. darparu ysgoloriaethau doethurol, darparu rhaglen hyfforddiant sgiliau ymchwil, cyhoeddi ymchwil cyfrwng Cymraeg, ayyb. Dros y cyfnod nesaf byddwn yn gweithio gyda'r Comisiwn i sicrhau bod ymchwil cyfrwng Cymraeg yn cael ei wreiddio yn niwylliant prifysgolion Cymru.

Tra'n croesawu'r cyfeiriad at y Coleg ym mharagraff 121 o'r Papur Gwyn felly, a'n rôl allweddol o safbwynt dilyniant ieithyddol, nid yw'r disgrifiad o rôl bresennol y Coleg a geir yn y paragraff hwnnw yn adlewyrchu ehangder ein gwaith a'r cyfraniad sydd gan y Coleg i wneud dros y blynyddoedd i ddod. Er enghraifft, tra bod y Papur Gwyn yn cyfeirio at ein rôl hanfodol yn sicrhau bod "mwy o ddysgwyr sy'n hyderus yn y Gymraeg yn manteisio ar gyfleon trwy gyfrwng y Gymraeg" mae diffyg cyfeiriad at ein cyfrifoldebau sylweddol ers 2019 i gyflwyno darpariaeth bynciol Cymraeg a dwyieithog i bawb yn y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau, beth bynnag eu sgiliau iaith, a'n strategaeth i ddenu cynulleidfaoedd newydd yn y sector addysg uwch. Nid

siaradwyr Cymraeg hyderus yw unig gynulleidfa darged y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ers bron i bum mlynedd ac mae ein rôl a'n profiad o gyflwyno'r Gymraeg trwy ddarpariaeth bynciol i gynulleidfaoedd nad sy'n rhugl neu hyderus yn rhan allweddol o'r jig-so.

Nid oes cyfeiriad yn y Papur Gwyn chwaith at ein rôl yn datblygu adnoddau, yn cefnogi gweithluoedd perthnasol, yn cyfrannu at y maes hyfforddi athrawon, na chwaith yn y maes ymchwil cyfrwng Cymraeg.

Mae'n hollbwysig bod yr holl agweddau o ddyletswyddau presennol y Coleg, a photensial y Coleg i chwarae rhan allweddol wrth wireddu amcanion y Llywodraeth wrth symud ymlaen, yn cael eu cydnabod a'u hystyried fel rhan o'r trafodaethau pellach ar y trefniadau mwyaf addas ar gyfer cefnogi nodau'r Papur Gwyn.

Tra bod gan y Llywodraeth nifer o opsiynau o ran y trefniadau mwyaf addas i gefnogi gweithredu'r Papur Gwyn, a bod rhai ohonynt wedi eu hystyried dros y ddwy flynedd ddiwethaf, nodwn mai dau opsiwn yn unig sydd wedi eu hamlinellu yn y Papur Gwyn. Mae angen cryn waith a thrafodaeth lawn gyda'r holl gyrff perthnasol cyn bwrw ymlaen gydag unrhyw opsiwn. Cyn symud ymlaen credwn yn gryf y dylid ateb y cwestiynau islaw :

- Beth yw'r holl gyfrifoldebau dan sylw?
- Ble mae'r cyfrifoldebau perthnasol hyn yn gorwedd ar hyn o bryd?
- Beth fyddai effeithiau symud rhai o'r cyfrifoldebau hynny o un corff i gorff arall, gan gynnwys effeithiau nas ragwelwyd?
- Ble yw'r man mwyaf addas i osod cyfrifoldebau newydd?
- Beth yw'r ffordd orau o sicrhau un system gydlynol ac osgoi unrhyw ddyblygu neu orgyffwrdd rhwng sefydliadau?
- Beth fyddai effaith sefydlu corff annibynnol arall ar ffurf tebyg i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda'i strwythurau llywodraethiant ei hun, ar greu un system gydlynol?
- Beth fyddai cost sefydlu corff o'r newydd?
- Faint o ddyblygu a fyddai'n digwydd o swyddogaethau cefnogi e.e. Cyllid, Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Technoleg a Digidol?
- Heblaw am y ddau opsiwn y cyfeirir atyn nhw yn y Papur Gwyn, beth yw'r opsiynau eraill y gellir eu hystyried?
- Beth yw gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol dros y degawd i ddod?

Croesawn yn fawr y ffaith bod y Llywodraeth yn cydnabod bod "gwaith pellach i'w wneud i ystyried pa fodel fyddai fwyaf addas o ran y math o gorff gellid ei sefydlu" ac mae'r Coleg yn barod i chwarae rhan lawn yn y trafodaethau hynny gan gynnwys ystyriaeth i ymestyn ei gyfrifoldebau.

Cwestiwn 28 – Ydych chi'n cytuno y dylai rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gael ei hehangu i ymgymryd â'r swyddogaeth neu oes model arall y dylid ei ystyried?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

Mae rôl allweddol gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg mewn gwireddu amcanion y Papur Gwyn. Mae'r arbenigedd sydd wedi ei meithrin ers ei sefydlu yn amlwg ac mae canfod ffordd o sicrhau bod y sector statudol yn gallu eiwa o'r arbenigedd hon yn hanfodol. Mae'r Coleg Cymraeg yn falch iawn o'n perthynas weithio hynod effeithiol gyda'r Ganolfan.

Tra bod yr arbenigedd mewn perthynas â chaffael sgiliau iaith yn sicr yn gorwedd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, noder bod angen arbenigedd sectorol i wybod sut orau i fewnblannu darpariaeth sgiliau iaith oddi fewn i'r sectorau perthnasol, ac i weithredu fel brocer i sicrhau bod hynny'n digwydd – ac mae hynny'n gofyn am arbenigedd sefydliadau eraill mewn cydweithrediad â'r Ganolfan.

Cyfeiriwn at ein hymatebion i gwestiynau 13, 14 a 27 uwchlaw, yn benodol ynglŷn â'r berthynas glos iawn sydd rhwng y Ganolfan a'r Coleg Cymraeg ar draws nifer o agweddau o'n gwaith, a'r angen i hynny barhau os nad cynyddu yn sgil gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer y Bil.

Fel y nodir yn ein hymateb i gwestiwn 27, cyn penderfynu ar ffordd ymlaen, dylai'r Llywodraeth ystyried yn llawn y cyfrifoldebau sydd dan sylw, yr holl opsiynau posib a chanlyniadau unrhyw newidiadau. Dymuna'r Coleg chwarae rhan lawn yn y trafodaethau hynny.

Cwestiwn 29 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylid gwarantu bod yna ddigon o ddarpariaeth dysgu Cymraeg a strwythurau addas mewn lle i gefnogi dysgwyr o bob oed yng Nghymru?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Tra'n cytuno gyda'r egwyddor y dylid gwarantu bod digon o ddarpariaeth dysgu Cymraeg, a bod strwythurau addas i gefnogi dysgwyr o bob oed, carem weld rhagor o fanylion am y cynnig penodol hwn.

Mae'n bwysig nodi nad yw creu darpariaeth yn ei hun yn ddigon i sicrhau bod pobl yn ymgymryd â, na chwaith yn parhau i ddilyn, y ddarpariaeth dros gyfnod o amser sy'n arwain at gynnydd sylweddol a chynaliadwy yn eu sgiliau iaith. Mae angen strwythurau addas, gofynion clir mewn cymwysterau neu gan gyflogwyr, a chymelliadau addas hefyd i greu system gyfan a chynaliadwy er mwyn datblygu sgiliau iaith y boblogaeth.

Cwestiynau o'r ddogfen 'Amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

Cwestiwn 30 – Ydych chi'n cytuno gyda'n dehongliad ni o'r grwpiau a'r cyrff sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau? A oes grwpiau neu gyrff eraill yn dod o fewn cwrmpas y newidiadau ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	✓
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	---

Sylwadau ategol

Mae'r Coleg yn ystyried y dylai gael ei gynnwys yn y rhestr "partneriaid gweithredu strategol cenedlaethol" ym mharagraff 8 yr amlinelliad o gostau ac effeithiau Bil Addysg Gymraeg, yn hytrach nag o dan paragraff 9 sef "cyrff a phartneriaid sy'n cefnogi taith unigolion ar hyd y continwwm sgiliau Cymraeg" am yr holl resymau a amlinellir uchod yn ein hymateb i'r Papur Gwyn.

Cwestiwn 31 – Ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg ar ba grwpiau neu gyrff fyddai'r costau'n disgyn?

Sylwadau ategol

Tra'n derbyn bod y costau fydd yn deillio o ganoli'r gefnogaeth yn cael eu hystyried y tu allan i'r Bil, bydd yn allweddol cynnal asesiad llawn o gost ac effeithiau yr holl opsiynau posib.

Cwestiwn 32 – Beth yw'r effeithiau eraill (ariannol ac anariannol) sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth arfaethedig nad ydynt wedi'u hamlinellu yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Sylwadau ategol

-

Cwestiwn 33 – A oes unrhyw sylwadau eraill ar yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

-

Cwestiynau gorfodol

Cwestiwn 34 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Fel y mae ein hymateb i'r cwestiynau uchod yn dangos, credwn fod gan y Bil y potensial i gael effaith gadarnhaol a phellgyrhaeddol tu hwnt ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cwestiwn 35 – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cyfeiriwn at ein sylwadau yn ein hymateb i gwestiwn 14 ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod targedau cadarn a threfniadau atebolrwydd addas mewn lle ar gyfer cynyddu'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn allweddol i lwyddiant y Bil ac mae angen ystyriaeth bellach i'r elfennau hyn.

Cwestiwn 36 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch ddefnyddio'r blwch isod i wneud hynny:

Hoffem weld ystyriaeth bellach i'r agenda cydraddoldeb a gwrth-hiliaeth a sut y mae modd i'r Bil Addysg Gymraeg gyfrannu at sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn perthyn i bawb, beth bynnag eu cefndir neu hil. Tra bod niferoedd yn cynyddu yn raddol, yn hanesyddol canrannau cymharol fach iawn o bobl o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi dewis anfon eu plant i ysgolion Cymraeg. I newid y sefyllfa, mae angen cynllunio bwriadus ar lefel lleol, mae angen sefydlu ysgolion Cymraeg mewn ardaloedd ble mae niferoedd uwch o bobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn byw ac mae angen ymgyrchoedd rhagweithiol penodol i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:





Is-adran Cymraeg 2050 Llywodraeth
Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Papur Gwyn Llywodraeth Cymru: Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

Annwyl Gyfaill,

Diolch am y cyfle i gyfrannu ac ymateb i gynigion eich Papur Gwyn a fydd yn sail i Fil Addysg Gymraeg. Diolch i chi hefyd am fynychu cyfarfod diweddar Bwrdd Cymwysterau Cymru ym mis Mai i drafod y cynigion, yn ogystal ag egluro effaith polisi bwriadedig y Bil arfaethedig, yn fanylach.

Rydym yn cytuno bod pob disgybl yng Nghymru yn haeddu dod yn siaradwr Cymraeg, ac felly'n croesawu'r nod a'r uchelgais newydd hwn ar gyfer ein system addysg.

Fel y dywedasom yn ein hymateb i Ymchwiliad Pwyllgor y Senedd i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg¹, bydd y sector addysg yn allweddol wrth helpu Cymru i gyrraedd y targed uchelgeisiol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Bydd y cynnig i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg – darn o ddeddfwriaeth a allai fod yn garreg filltir bwysig – yn ystod tymor y Senedd hon nid yn unig yn cynnig sylfaen gref ar gyfer system addysg sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg i bob dysgwr, ond hefyd yn cyfrannu at sicrhau bod pob dysgwr yn dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol.

O ran y cynigion manwl, maent yn sicr yn cynnig ymagwedd adeiladol wrth symud ymlaen ac mae llawer i'w groesawu o'n safbwynt ni. Mae hyn yn cynnwys gosod y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ar wyneb y Bil fel bod

¹[A yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn llwyddo: Ymchwiliad Pwyllgor y Senedd - Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg - y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg](#)

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.cymwysterau.cymru

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial, Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

iddo sail statudol, gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi continwwm sgiliau iaith Gymraeg, a Chynllun Cenedlaethol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg yn ogystal â diwygio'r system o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Rydym yn cydnabod bod cyfrifoldeb ar bob un ohonom sy'n gweithio yn y system addysg i weithio tuag at y nod hwnnw, ac rydym yn falch o weld y Papur Gwyn yn cydnabod Cymwysterau Cymru fel un o nifer o gyrff a phrif bartneriaid sydd â'r dasg o gefnogi unigolion ar eu taith ar hyd continwwm y Gymraeg.

Yn y cyd-destun hwn, mae gan y Cwricwlwm newydd i Gymru rôl allweddol wrth gefnogi cyflawni uchelgeisiau yn y Gymraeg. Yn gysylltiedig â hyn, yn ddiweddarach y mis hwn, byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau ar ddyluniad cymwysterau Cymraeg newydd ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan gynnwys TGAU Iaith a Llenyddiaeth Cymraeg newydd, TGAU Cymraeg Craidd a chymhwyster Lefel 2 Cymraeg Craidd Ychwanegol.

Er na fydd cymwysterau yn unig yn gallu cyflawni'r newid diwylliannol a ragwelir drwy'r Bil arfaethedig hwn, gan gynnwys creu siaradwyr Cymraeg hyderus yn 16 oed, mae ein hymrwymiad i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru i gyd-fynd ag uchelgeisiau Cymraeg 2050 ac, yn y pen draw, y nod o greu un cymhwyster ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru yn ddiwyro.

O ystyried ein cylch gwaith a'n gwaith diweddar wrth ddatblygu cymwysterau Cymraeg newydd ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed, mae gennym ddiddordeb arbennig yn y cynnig i sefydlu deiliant ieithyddol penodol ar gyfer pob dysgwr 16 oed, ac erbyn 2050, bydd pob disgybl sy'n gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus hyd at o leiaf lefel sy'n gyfystyr â lefel B2 y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer leithoedd.

Rydym wedi dewis canolbwyntio ein hymateb ar yr agweddau ar y cynigion ym mhob Pennod o'r Papur Gwyn sydd fwyaf perthnasol i'n swyddogaethau statudol, yn ein barn ni.

Diolch yn fawr iawn am y cyfle i wneud sylwadau ar y cynigion ac edrychwn ymlaen at chwarae ein rhan yng nghynlluniau'r dyfodol.

Gyda diolch

Ymateb i'r Ymgynghoriad

Pennod 1: Gwneud y targed miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged statudol a gwneud darpariaeth ynghylch deilliant ieithyddol i ddysgwyr drwy'r system addysg (cwestiynau 1-3)

Rydym yn cefnogi'r cynnig i wneud y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged statudol, gan roi statws cyfreithiol iddo. Bydd ei gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol yn rhoi sylfaen cadarnach i'r targed hwn ac yn adlewyrchu pwysigrwydd cyrraedd y targed.

Fel y soniwyd yn ein llythyr eglurhaol, mae gennym ddiddordeb arbennig yn eich cynnig i sefydlu deilliant ieithyddol i ddysgwyr ar ddiwedd addysg statudol gan y bydd hwn yn y pen draw yn dod yn ddeilliant y bydd angen ei asesu a gallai fod yn rhan o gymwysterau cenedlaethol. Rydym mewn sefyllfa dda i roi cyngor i chi ar sut y gallai dysgwyr ddangos y deilliant hwn.

Deallwn fod y canlyniad ieithyddol yn ymwneud ag isafswm hyfedredd siarad. Mae'n bwysig nodi bod hyfedredd siarad fel gallu gwybyddol (fel y'i mesurir mewn asesiadau) yn tueddu i amrywio yn y boblogaeth mewn ffordd a ddisgrifir yn aml mewn termau ystadegol fel y 'gromlin siâp cloch'. Mae hyn yn aml yn golygu bod niferoedd bach o bobl ar ben isaf yr ystod ac mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn perfformio o gwmpas y cyfartaledd. Byddai hyfedredd B2 o leiaf ar draws y boblogaeth 16 oed yn awgrymu y bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn perfformio ar lefel uwch na hyn. Dylai hyn fod yn ystyriaeth wrth osod y safon disgwylidig.

Er bod yr amlinelliad o gostau ac effeithiau sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad yn cydnabod y bydd *'goblygiadau o ran sut y bydd cynnydd dysgwyr hyd at lefel B2 yn cael eu dehongli, eu deall a'u hasesu . . . angen eu harchwilio a'u deall wrth i'r cynnig gael ei ddatblygu²*, byddai'r Papur Gwyn yn elwa o ragor o wybodaeth am y sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r deilliant arfaethedig hwn, a beth fyddai'r ddamcaniaeth newid sy'n gysylltiedig â'r ymyriad. Gall gwaith pellach yn y maes hwn fod yn ddefnyddiol.

Mae'n amlwg bod gan y cynnig hwn oblygiadau posibl ar gyfer cymwysterau Cymraeg, gan gynnwys y cymwysterau TGAU newydd a'r cymhwyster Cymraeg Craidd ychwanegol sy'n cael eu datblygu i'w haddysgu gyntaf o 2025. Bydd angen ystyried y rhain wrth i'r cymwysterau hyn ddatblygu yn iteriadau'r dyfodol.

Un o brif egwyddorion ein gwaith wrth ddatblygu'r cymwysterau Cymraeg newydd hyn oedd bod yn rhaid i hyn gael ei arwain gan y cwricwlwm. Ein nod yn y tymor hwy yw gweld un cymhwyster Cymraeg troswaol ar gyfer pob dysgwr ym mhob lleoliad.

² [Bil Addysg Gymraeg: amlinelliad o gostau ac effeithiau \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Bydd y cynigion yn y Papur Gwyn yn cefnogi'r uchelgais hwn drwy fynd i'r afael â'r lefelau amrywiol o amlygiad sydd gan ddysgwyr i'r iaith.

Er bod y ffiniau rhwng gwahanol leoliadau addysg yng Nghymru yn meddal, serch hynny, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cydnabod ac yn adlewyrchu'r gwahaniaethau presennol sy'n parhau rhwng lleoliadau cyfrwng Cymraeg a lleoliadau cyfrwng Saesneg.

Er y dylai cyflwyno Bil Addysg Gymraeg newydd, a'r cynnig i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion nad ydynt eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig, leihau maint y gwahaniaeth rhwng lleoliadau dros amser, ni ddylem danamcangyfrif yr her sylweddol sydd o'n blaenau os yw'r sector cyfrwng Saesneg am gynhyrchu'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg hyderus sydd eu hangen.

I'r perwyl hwnnw, hoffem ddeall yn well sut a phryd y bwriedir i sefydlu un deiliant ieithyddol a datblygu continwwm sgiliau Cymraeg Gydol Oes ryngweithio ac alinio â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ei fframwaith cysylltiedig a'r camau cynnydd ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a chyfrwng Saesneg.

Mae gwahaniaeth pwysig hefyd rhwng y sgiliau y mae cymhwyster yn ceisio eu datblygu a'r hyn a ddangosir mewn gwirionedd trwy asesiad. Er enghraifft, ni wyddys ar ba lefel CEFR y mae dysgwyr yn perfformio ar hyn o bryd wrth ennill gradd A, C neu F mewn TGAU. Nid yw hyd yn oed y rhai sy'n cyflawni gradd A yn dangos yr holl sgiliau oherwydd natur cydadferol safonau TGAU.

Mewn geiriau eraill, gall dysgwyr ennill yr un radd trwy ddangos lefelau cyrhaeddiad amrywiol ar draws y gwahanol feysydd sgiliau (siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu). Gall adrodd ar wahân am siarad fod yn ystyriaeth ar gyfer dylunio cymwysterau Cymraeg yn y dyfodol er mwyn gallu adnabod y gydran siarad yn hawdd.

Hoffem weithio gyda chi i archwilio a deall ymhellach sut yr asesir hyfedredd iaith dysgwr mewn perthynas â'r deiliant ieithyddol arfaethedig, a sut y gallai hyn fod yn berthnasol i gymwysterau presennol sy'n asesu sgiliau Cymraeg (ac ieithoedd eraill) yn 16 oed.

Er bod y Papur Gwyn yn cydnabod mai '*addysg cyfrwng Cymraeg sydd, ac fydd yn parhau, i roi'r cyfle gorau a'r llwybr cyflymaf i ddod yn siaradwr Cymraeg*' (paragraff 15)³, bydd hefyd yn bwysig lliniaru a lleihau'r risg o ganlyniadau anfwriadol a allai fod yn negyddol o ganlyniad i gyflwyno deiliant ieithyddol statudol ar draws pob lleoliad. Er enghraifft, drwy osod safon a allai fod yn rhy heriol i ddysgwyr mewn

³ [Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

ysgolion cyfrwng Saesneg ac ar yr un pryd yn rhy gyfyngol i'w cyfoedion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

Os yw bodloni'r deilliant ieithyddol hwn yn heriol iawn i rai lleoliadau, mae perygl y gallai ddechrau gweithredu fel mesur perfformiad a chreu cymhellion gwrthnysig o fewn y system.

Pennod 2: Continwmm sgiliau Cymraeg gydol oes (cwestiwn 4)

Bu consensws clir ers tro y dylem fod yn gweithio i un continwmm ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg. Fodd bynnag, mae llawer o randdeiliaid, gan ein cynnwys ni, wedi bod yn galw ers peth amser am fwy o eglurder ynghylch sut beth yw'r continwmm Cymraeg yn ymarferol, a sut y bydd hyn yn cael ei weithredu yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd. Felly, rydym yn croesawu'r cynnig i orfodi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi'r continwmm sgiliau Cymraeg.

Mae'r Papur Gwyn⁴ yn nodi y byddai continwmm y Gymraeg *'yn sefyll ar ei draed ei hun fel continwmm sy'n bodloni gofynion Cymru a'r Gymraeg'* (paragraff 34). Fel y mynegwyd yn ein hymateb i Bennod 1, mae angen mwy o eglurder ynghylch sut y bwriedir i gyflwyno continwmm sgiliau Cymraeg Gydol Oes drwy'r deddfwriaeth hon ryngweithio ac alinio â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ei fframwaith cysylltiedig a'r camau cynnydd ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a chyfrwng Saesneg.

Gwyddom hefyd fod yna bwyntiau allweddol ar daith dysgwr lle mae aros mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn broblem - pwyntiau pontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd, o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 10, ac wrth i ddysgwyr symud i ddarpariaeth ôl-16⁵. Bydd y cynigion yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i wneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r pwyntiau pontio hyn. Bydd y cynigion i symleiddio categorïau ac annog ysgolion i gynyddu'r ddarpariaeth hefyd yn helpu gyda hyn.

Cawsom ein calonogi o weld yr argymhelliad wedi'i gynnwys yn adroddiad diweddar y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol⁶ ynghylch yr angen i hwyluso cydweithio agosach rhwng awdurdodau lleol, darparwyr addysg blynnyddoedd cynnar ac ôl-16 wrth ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn y dyfodol (argymhellion 11 a 12). Gobeithiwn y bydd yr argymhellion hyn yn cael eu derbyn a'u gweithredu yn dilyn hynny gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u rhaglen waith.

⁴ <https://www.llyw.cymru/cynigion-ar-gyfer-bil-addysg-gymraeg-html>

⁵ [Gwerthusiad o'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg - Adroddiad terfynol \(llyw.cymru\)](#)

⁶ [Y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg \(senedd.cymru\)](#)

Pennod 3: Categoriadau ysgolion yn ôl cyfrwng iaith (cwestiynau 5-12)

Rydym yn cefnogi'r cynnig ynghylch categoriadau ysgolion. Gall ymestyn categoriadau i bob ysgol a gynhelir a chael mwy o eglurder ynghylch ystyr categorïau, yn enwedig i rieni a dysgwyr, fod yn gadarnhaol yn ogystal â chynorthwyo awdurdodau lleol i weithredu a monitro eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Nodwn fod diffiniadau'r categorïau eto i'w datblygu ac y bydd angen ymgynghori pellach maes o law. Gobeithiwn y gallai hyn gynnig cyfle i gysoni diffiniadau categorïau ar draws canllawiau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, a chyhoeddiadau eraill.

Mae'r cyntaf o'n prif nodau yn gosod cyfrifoldeb arnom i sicrhau bod cymwysterau'n bodloni anghenion rhesymol dysgwyr; gan gynnwys bod ystod o gymwysterau sy'n addas i bob dysgwr. Er mai mater i ysgolion a cholegau yw penderfynu pa gymwysterau y maent yn eu cynnig, bydd dull cynhwysfawr a chyson o gategoriadau yn ei gwneud hi'n haws monitro pa mor dda y mae'r cynnig cymwysterau'n cyd-fynd â'r gyfundrefn gategoriadau ac yn ei dro, sicrhau ei fod yn cadw i fyny ag unrhyw newidiadau yn y galw wedi'i ysgogi gan fwy o ddarpariaeth.

Pennod 4: Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg (cwestiynau 13-14)

Rydym yn croesawu'r cynnig i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi Cynllun Cenedlaethol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg. Nid yn unig y bydd hyn yn creu cysylltiad rhwng y targedau cenedlaethol a lleol ar gyfer y Gymraeg mewn addysg fel y mae'r Papur Gwyn yn ei ddangos, ond bydd hefyd yn rhoi mwy o eglurder a gwahaniaeth o ran rolau, cyfrifoldebau ac, yn anad dim, atebolrwydd.

Rydym hefyd yn cytuno y bydd cyhoeddi Cynllun Cenedlaethol yn rhoi ffocws i wahanol randdeiliaid gydweithio i greu gwell parhad, profiad a deilliannau i'r dysgwr wrth iddynt ddechrau siarad yr iaith. O ystyried y berthynas gynhenid rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a chymwysterau dwyieithog hygyrch, rydym yn cydnabod y rôl bwysig sydd gennym ninnau hefyd yn hynny o beth (gweler ein hymateb i Bennod 7 : Cefnogaeth i wireddu amcanion y Bil).

Mae argaeledd niferoedd digonol o staff addysgu a staff cymorth sydd â'r sgiliau priodol mewn ysgolion, colegau a darparwyr blynyddoedd cynnar yn allweddol i gyflawni llawer o'r cynigion yn y Papur Gwyn. Felly, rydym yn croesawu cynnwys targedau cenedlaethol ar gyfer nifer yr athrawon sydd eu hangen fel rhan o'r Cynllun Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae angen llawn sylweddoli maint yr her hon.

Nodwyd gyda diddordeb adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a ddaeth i'r casgliad mai *'adeiladu gweithlu dwyieithog yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol'*⁷ (tudalen 56). Byddem yn cytuno â'r casgliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi'r Gymraeg fel pwnc blaenoriaeth, oherwydd y galw cynyddol am addysg ysgol cyfrwng Cymraeg ac y byddai'r Gymraeg fel pwnc yn fwy amlwg o fewn y cwricwlwm ysgol newydd. Ei nod oedd cynyddu nifer y myfyrwyr Safon Uwch Cymraeg i fwy na mil erbyn 2021, er mwyn cynyddu'r nifer sy'n mynd ymlaen i astudio Cymraeg yn y brifysgol a hyfforddi i fod yn athrawon. Mae'n peri pryder felly gweld gostyngiad parhaus yn nifer y cofrestriadau ar gyfer y ddau gymhwyster UG a Safon Uwch Cymraeg. Dengys y tabl isod nifer y cofrestriadau arholiadau ar gyfer 2023 o'u cymharu â'r niferoedd o 2019.

	2019	2022	2023
Cofrestriadau UG Cymraeg iaith gyntaf	260	195	265
Cofrestriadau Safon Uwch Cymraeg iaith gyntaf	280	235	185
Cofrestriadau UG Cymraeg ail iaith	350	300	310
Cofrestriadau Safon Uwch Cymraeg ail iaith	250	230	165

Bydd Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru, y gwaith y mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol eisoes yn ei wneud i gryfhau capasiti staffio drwy ei Gynllun Gweithredu 'Tuag at Cymraeg 2050'⁸, yn ogystal â'r cynnig i ganoli cefnogaeth ar gyfer dysgu Cymraeg i gyd ran bwysig i'w chwarae. Bydd ymrwymiad y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu dysgu Cymraeg i ymarferwyr addysg yn hanfodol yn hynny o beth.

Fodd bynnag, o ystyried maint yr her yn y maes hwn, a'r angen i ddatblygu ffyrdd radical ac arloesol o gynyddu'r gweithlu yn sylweddol er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg newydd, byddem wedi disgwyl mwy o sylw i'r maes hanfodol hwn yn y Papur Gwyn.

⁷ Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu a'r Gymraeg (Mai 2023): [Y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg \(senedd.cymru\)](https://www.senedd.cymru/y-fframwaith-deddfwriaethol-syn-cefnogi-darpariaeth-addysg-cyfrwng-cymraeg)

⁸ [tuagatcymraeg2050.pdf \(colegcymraeg.ac.uk\)](https://www.colegcymraeg.ac.uk/tuagatcymraeg2050.pdf)

I'r perwyl hwnnw, hoffem ddeall yn well y berthynas rhwng y Cynllun Cenedlaethol Statudol arfaethedig hwn, Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg a'r lleoliad targed lleol sy'n ymwneud â'r Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau) arfaethedig newydd.

Pennod 5: Cynllunio'r Gymraeg mewn addysg mewn awdurdodau lleol (cwestiynau 15-22)

Fel y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau yng Nghymru, mae gennym ddiddordeb mewn datblygu Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau), i'r graddau yr ydym yn ei ragweld ac yn gweithio tuag at farchnad gymwysterau sy'n ymateb i'r cynnydd yn y galw am gymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg cyfredol yn adrodd ar y maes hwn o dan 'Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg'⁹.

Y casgliad rhesymegol o ran cyflwyno Bil Addysg y Gymraeg, a chyflawni CGCAau yn llwyddiannus dros y 10 mlynedd nesaf, yw y bydd mwy o ddysgwyr yn gadael addysg statudol ac yn ymuno â'r sectorau ôl-16 yn meddu ar sgiliau Cymraeg. Mae hyn, yn ei dro, yn cynyddu'r potensial a'r gofyniad i ddatblygu darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg.

Mae dysgwyr sy'n mynychu colegau addysg bellach yn fwy tebygol o aros yn eu cymunedau lleol¹⁰ felly mae cefnogi eu dilyniant ieithyddol drwy argaeledd cymwysterau galwedigaethol dwyieithog yn bwysig. Bydd hyn yn cefnogi'r weledigaeth o weithlu dwyieithog, yn barod i weithio'n ddwyieithog a chyfrannu at y targed cenedlaethol i:

*Ddatblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, beth bynnag fo'u meistrolaeth ar yr iaith, i ddatblygu sgiliau Cymraeg i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.*¹¹

Pennod 6: Dyletswyddau ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg Gymraeg yn rhagweithiol (cwestiynau 23-26)

Rydym yn cefnogi'r cynnig i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol. Mae hyn yn cyd-fynd â gweithgarwch y rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, yng Nghymru sydd wedi mabwysiadu'r 'cynnig gweithredol'.

⁹ [Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(llyw.cymru\)](#)

¹⁰ [tuagatcymraeg2050.pdf \(colegcymraeg.ac.uk\)](#)

¹¹ [Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW. CYMRU](#)

Ar raddfa lai, rydym wedi cwblhau ymgynghoriad yn ddiweddar i osod dyletswydd ar gyrff dyfarnu i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo a hwyluso argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn adeiladu ar ein canllawiau cyhoeddedig i gefnogi cyrff dyfarnu i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu eu cymwysterau cyfrwng Cymraeg, a phecyn adnoddau rhyngweithiol ar gyfer cyrff dyfarnu ar gyflwyno'r 'Cynnig Cymraeg'¹², gan bwysleisio manteision dull mwy rhagweithiol o gasglu dewis iaith dysgwyr a hyrwyddo a hwyluso argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr, ysgolion a cholegau. Rydym yn bwriadu cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn ddiweddarach yr haf hwn.

Rydym yn rhagweld y bydd cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn naturiol yn cynyddu'r galw am gymwysterau ôl-16 i fod ar gael yn Gymraeg. Rydym wedi ymrwmo i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg fel y gall dysgwyr ddilyn cymwysterau yn eu dewis iaith. Mae ein penderfyniad i sicrhau bod yr holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr 14-16 oed ar gael yn Gymraeg erbyn 2027 eisoes yn ymrwymiad sylweddol.

Rydym hefyd yn gweithio tuag at gynyddu'r ystod o gymwysterau ôl-16 sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn cydgyllunio ac alinio darpariaeth a chymwysterau ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn y dyfodol, rydym yn gweithio'n agos gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Unwaith y bydd yn weithredol, byddwn hefyd yn ceisio meithrin perthynas waith gadarnhaol debyg gyda'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Pennod 7: Cefnogaeth i wireddu amcanion y Bil (cwestiynau 27-29)

Er bod y darpariaethau yn y Bennod hon o'r Papur Gwyn y tu allan i gwmpas y Bil, rydym yn cytuno y bydd eu cyfraniad yn hanfodol i wireddu'r Bil.

Er nad ydym yn y sefyllfa orau i gynnig safbwynt ar y model mwyaf priodol a fyddai'n fwyaf addas o ran y math o gorff y gellid ei sefydlu, rydym yn cefnogi'r egwyddor o gael un corff canolog yn gyfrifol am ddarparu cymorth arbenigol ar gyfer dysgu Cymraeg gydol oes, gan gynnwys adnoddau i ddysgwyr ac ymarferwyr.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, trwy ei Borth Adnoddau yn darparu cyfoeth o adnoddau addysgu digidol Cymraeg a dwyieithog ar gyfer staff a myfyrwyr mewn colegau a phrifysgolion. Mae yna hefyd nifer o adnoddau yno i gefnogi prentisiaid. Nodwn hefyd sefydlu Adnodd Cyf¹³, cwmni newydd a fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r ddarpariaeth o adnoddau addysgol dwyieithog i gefnogi addysgu a dysgu'r Cwricwlwm i Gymru a chymwysterau newydd. Deallwn y bydd hefyd yn ceisio comisiynu a sicrhau ansawdd adnoddau ôl-16.

¹² [Y Cynnig Cymraeg – Y Cynnig Gweithredol | Cymwysterau Cymru](#)

¹³ <https://www.llyw.cymru/adnodd-cyfngedig>

Byddem felly yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch sut y bydd y corff canolog unigol arfaethedig yn ymwneud â chyrff eraill ac yn rhyngweithio â hwy.

Mae'r Papur Gwyn yn cydnabod y rôl allweddol sydd gan nifer o gyrff a phartneriaethau i'w chwarae wrth gefnogi unigolion ar eu taith ar hyd y continwrm sgiliau Cymraeg. Mae hefyd yn nodi rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y "Coleg") wrth sicrhau bod mwy o ddysgwyr mewn addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau yn manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig i barhad ieithyddol. Rydym yn cytuno â'r safbwynt hwn.

Er na fydd cymwysterau ar eu pennau eu hunain yn gallu cyflawni'r newid diwylliannol a ragwelir drwy'r Bil arfaethedig hwn, ni ddylid diystyru rôl cymwysterau wrth gefnogi gwaith y Coleg ac eraill yn y maes hwn. Clywn yn aml gan randdeiliaid fod argaeledd cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ffactor dylanwadol pwysig wrth i ddysgwyr wneud penderfyniadau o ran cyrsiau i'w hastudio.

Dyna pam y penderfynom sefydlu Partneriaeth Strategol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2022. Drwy ein gwaith partneriaeth, rydym wedi cytuno i gydweithio ar fater hollbwysig cymwysterau Cymraeg er budd dysgwyr a phrentisiaid sy'n dewis astudio a hyfforddi yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Ein nod yw sicrhau bod gan ddysgwyr a phrentisiaid sy'n dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gymwysterau dwyieithog hygyrch sydd ar gael ym mhob maes pwnc perthnasol.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd da yn ystod y blynyddoedd diwethaf, byddem yn croesawu trafodaethau â swyddogion Llywodraeth Cymru ar sut y gall Cymwysterau Cymru barhau i chwarae ei ran wrth sicrhau bod system gymwysterau Cymru yn darparu'r amodau i hwyluso cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg.

I gloi, hoffem ailadrodd ein cefnogaeth i nodau ac uchelgeisiau'r Bil arfaethedig hwn, a'n hymrwymiad i weithio gyda chi a phartneriaid eraill i wireddu'r uchelgeisiau hynny'n adeiladol.



Cymraeg 2050 Division Welsh
Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Welsh Government White Paper: Proposals for a Welsh Language Education Bill

Annwyl Gyfaill,

Thank you for the opportunity to contribute and respond to your White Paper proposals that will form the basis of a Welsh Language Education Bill. Thank you also for attending the recent Qualifications Wales Board meeting in May to discuss the proposals, as well as explaining the intended policy effect of the proposed Bill, in more detail.

We agree that every pupil in Wales deserves to become a Welsh speaker, and therefore welcome this new aim and ambition for our education system.

As we stated in our response to the Senedd Committee Inquiry into Welsh in Education Strategic Plans (WESPs)¹, the education sector will be instrumental in helping Wales achieve the ambitious target of reaching a million Welsh speakers. The proposed introduction of a Welsh Language Education Bill – a potentially landmark piece of legislation – during this Senedd term will not only offer a strong foundation towards an education system that delivers Welsh-medium education for all learners, but also contribute towards all learners becoming confident Welsh speakers through the statutory education system.

In terms of the detailed proposals, they certainly offer a constructive approach moving forward and there is much to welcome from our perspective. This includes, placing the national target of one million Welsh speakers by 2050 on the face of the Bill so that it has a statutory basis, imposing a duty on Welsh Ministers to publish a Welsh language

¹ [Are Welsh in Education Strategic Plans working: Senedd Committee Inquiry - Welsh in Education Strategic Plans – the legislative framework that supports Welsh-Medium Education Provision](#)

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial, Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

skills continuum, and a National Plan for the acquisition and learning of Welsh as well as reforming the system of Welsh in Education Strategic Plans.

We recognise that there is a responsibility on all of us that work in the education system to work towards that goal, and are pleased to see the White Paper recognise Qualifications Wales as one of a number of bodies and main partners tasked with supporting individuals on their journey along the Welsh language continuum.

In this context, the new Curriculum for Wales has a key role in supporting the achievement of Welsh language ambitions. Linked to this, later this month, we will publish our decisions on the design of new Cymraeg qualifications for 14-16-year-olds, including a new Cymraeg Language and Literature GCSE, Cymraeg Core GCSE and an Additional Level 2 Core Cymraeg qualification.

While qualifications alone will not be able to deliver the cultural shift envisaged through this proposed Bill, including creating confident Welsh speakers at 16, our commitment to working with other partners and stakeholders in Wales to collectively pursue the ambitions of Cymraeg 2050 and ultimately the aim of a single qualification for all learners in Wales is unwavering.

Given our remit and recent work in developing new Cymraeg qualifications for 14-16 year olds, we are particularly interested in the proposal to establish a specific linguistic outcome for all learners at 16, and that by 2050, all pupils leaving statutory education will be able to confidently speak Welsh to at least a level that is synonymous with level B2 of the Common European Framework of Reference for Languages.

We have chosen to focus our response on the aspects of the proposals within each Chapter of the White Paper that we consider to be most relevant to our statutory functions.

Thank you very much for the opportunity to comment on the proposals and we look forward to playing our part in future plans.

Gyda diolch

Consultation Response

Chapter 1: Making the target of 1 million Welsh speakers by 2050 a statutory target and making provision for a linguistic outcome for learners through the education system (questions 1-3)

We support the proposal to make the target of 1 million Welsh speakers by 2050 a statutory target, thus providing it legal status. Its inclusion in primary legislation will place consideration of this target on a firmer footing and reflect the importance placed on achieving the target.

As mentioned in our cover letter, we have a particular interest in your proposal to establish a linguistic outcome for learners at the end of statutory education as this will eventually become an outcome that will need to be assessed and could form a part of national qualifications. We are well placed to advise you on how this outcome could be demonstrated by learners.

We understand that the linguistic outcome relates to a minimum speaking proficiency. It is important to note that speaking proficiency as a cognitive ability (as measured in assessment) tends to vary in the population in a way that is often described in statistical terms as the 'bell-shaped curve'. This often means that small numbers of people are at the bottom end of the range and the bulk of the population perform around the average. A minimum of B2 proficiency across the 16-year-old population would imply that the bulk of learners will be performing at a higher level than this. This should be a consideration when setting the expected standard.

While the outline of costs and impacts which accompanies the consultation recognises that *'implications with regard to how learners' progression up to level B2 will be interpreted, understood and assessed . . . will need to be further explored and understood as the proposal is developed'*², the White Paper would benefit from more information around the evidence base that sits behind this intended outcome, and what the theory of change linked to the intervention would be. Further work in this area may be useful.

It is clear that this proposal has potential implications for Welsh language qualifications, including the new GCSEs and additional Core Cymraeg qualification being developed for first teaching from 2025. These will need to be considered as these qualifications develop in future iterations.

A key principle of our work in developing these new Cymraeg qualifications was that this must be curriculum-led. Our longer-term aim is to see one overarching Cymraeg

² [Welsh Language Education Bill: an outline of costs and impacts | GOV.WALES](#)

qualification for all learners in all settings. The proposals in the White Paper will support this ambition by addressing the current varying levels of exposure that learners have to the language.

While the boundaries between different education settings in Wales are softened, the Curriculum for Wales nevertheless recognises and reflects the current differences which remain between Welsh-medium and English-medium settings.

While the introduction of a new Welsh Language Education Bill, and the proposal to increase Welsh language provision in schools that are not already designated Welsh medium schools should reduce the degree of difference between settings over time, we should not underestimate the significant challenge ahead if the English-medium sector is to generate the numbers of confident Welsh speakers required.

To that end, we would like to better understand how and when the establishment of a single linguistic outcome and the development of a Lifelong Welsh language skills continuum is intended to interact and align with the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021, its associated framework and the progression steps for both Welsh-medium/bilingual and English-medium settings.

There is also an important difference between the skills that a qualification seeks to develop and what is actually demonstrated through assessment. For example, it is not known at what CEFR level learners are currently performing at when achieving an A, C or F grade at GCSE. Even those achieving an A grade are not necessarily demonstrating all of the skills because of the compensatory nature of GCSE standards.

In other words, learners can achieve the same grade by demonstrating varying levels of attainment across the different skill areas (speaking, listening, reading and writing). Separate reporting of speaking may be a consideration for future design of Welsh language qualifications in order that the speaking component can be easily identified.

We would like to work with you to explore and further understand how a learner's language proficiency in relation to the proposed linguistic outcome will be assessed, and how this may relate to existing qualifications which assess Welsh (and other languages) skills at 16.

While the White Paper acknowledges that *'Welsh-medium education is, and will continue to be, the best opportunity and the fastest route to becoming a Welsh speaker'* (paragraph 15)³, it will also be important to mitigate and minimise the risk of potentially negative unintended consequences as a result of the introduction of a statutory linguistic outcome across all settings. For example, by setting a standard

³ [Proposals for a Welsh Language Education Bill \[HTML\] | GOV.WALES](#)

which could simultaneously be too stretching for learners in English-medium schools and too limiting for their peers in Welsh-medium settings.

If meeting this linguistic outcome proves very challenging for some settings, there is a risk that it could begin to function like a performance measure and create perverse incentives within the system.

Chapter 2: Lifelong Welsh language skills continuum (question 4)

There has long been a clear consensus that we should be working to a single continuum for Welsh teaching and learning. However, many stakeholders, including us, have been calling for some time for greater clarity on what a single Welsh language continuum looks like in practice, and how this will be implemented in the context of the new curriculum. We therefore welcome the proposal for a duty to be imposed on Welsh Ministers to publish the Welsh language skills continuum.

The White Paper⁴ notes that the Welsh language continuum would '*stand on its own as a continuum that meets the requirements of Wales and the Welsh language*' (para 34). As expressed in our response to Chapter 1, greater clarity is needed on how the introduction of a Lifelong Welsh language skills continuum through this legislation is intended to interact and align with the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021, its associated framework and the progression steps for both Welsh-medium/bilingual and English-medium settings.

We also know that there are key points in a learner's journey where retention in Welsh medium education remains an issue - transition points between primary and secondary education, from Year 9 to Year 10, and as learners move into post-16 provision⁵. The proposals will help ensure that learners continue to make good progress as they move through these transition points. The proposals to simplify categorisation and encourage schools to increase provision will also help with this.

We were encouraged to see the recommendation included in the Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee's recent report⁶ around the need to facilitate closer working and collaboration between local authorities, early-years and post-16 education providers in developing their Welsh language provision and future Welsh in Education Strategic Plans (recommendations 11 and 12). We hope that these recommendations will be accepted and subsequently implemented by Welsh Government as part of their programme of work.

⁴ [Proposals for a Welsh Language Education Bill \[HTML\] | GOV.WALES](#)

⁵ [Evaluation of the Welsh-medium education strategy - Final report \(gov.wales\)](#)

⁶ [Report into the legislative framework that supports Welsh-medium education provision \(senedd.wales\)](#)

Chapter 3: Categorising schools according to language-medium (questions 5-12)

We support the proposal regarding categorisation of schools. Extending categorisation to all maintained schools and having greater clarity about the meaning of categories, especially for parents and learners, can only be positive as well as assisting local authorities in the implementation and monitoring of their WESPs.

We note that the category definitions are still to be developed and that there will be a need for further consultation in due course. We hope that this might offer an opportunity to harmonise category definitions across Welsh Government and local authority guidance, and other publications.

The first of our principal aims places a responsibility on us to ensure that qualifications meet the reasonable needs of learners; including that there is a range of qualifications that are suited to all learners. While it is a matter for schools and colleges to determine which qualifications they offer, a comprehensive and consistent approach to categorisation will make it easier to monitor how well the qualification offer aligns with categorisation and in turn, ensure that it keeps pace with any changes in demand driven by increased provision.

Chapter 4: Statutory National Plan for the acquisition and learning of Welsh (questions 13-14)

We welcome the proposal to place a duty on the Welsh Ministers to produce and publish a National Plan for the acquisition and learning of Welsh. Not only will this create a link between the national and local targets for Welsh in education as the White Paper indicates, but also provide greater clarity and distinction in terms of roles, responsibilities and crucially, accountability.

We also agree that the publication of a National Plan will give a focus to different stakeholders to work together to create better continuity, experience and outcomes for the learner as they begin to speak the language. Given the inherent relationship between Welsh-medium and bilingual provision and accessible bilingual qualifications, we recognise the important role that we too have to play in that regard (see our response to Chapter 7: Support to realise the objectives of the Bill).

Key to the achievement of many of the proposals within the White Paper is the availability of adequate numbers of appropriately skilled teaching and support staff in schools, colleges and early years providers. We therefore welcome the inclusion of national targets for the number of teachers needed as part of the National Plan. However, the scale of this challenge should not be underestimated.

We noted with interest the Senedd’s Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee’s recently published report, which concluded that *‘building a bilingual workforce is one of the greatest challenges facing the Welsh Government and its key partners’*⁷ (page 56). We would agree with this conclusion.

The Welsh Government has previously identified Welsh as a priority subject, due to the increased demand for Welsh-medium school education and that Welsh as a subject would be more prominent within the new school curriculum. Its aim was to increase the number of Welsh A-level students to more than a thousand by 2021, in order to increase the number that go on to study Welsh at university and train to become teachers. It is therefore a concern to see a continued declining trend in entries into the two Welsh AS and A-level qualifications. The table below shows the numbers of examination entries for 2023 compared to the numbers from 2019.

	2019	2022	2023
AS Welsh first language entries	260	195	265
A level Welsh first language entries	280	235	185
AS Welsh second language entries	350	300	310
A level Welsh second language entries	250	230	165

The Welsh Government’s Welsh in Education Workforce Plan, the work that the Coleg Cymraeg Cenedlaethol is already undertaking to strengthen staffing capacity through its Towards Cymraeg 2050 Action Plan⁸, as well as the proposals for a centralised body to the National Centre for Learning Welsh’s commitment to provide Welsh language learning to education practitioners will be critical in that regard.

However, given the scale of challenge in this area, and the need to develop radical and innovative ways to significantly increase the workforce to enable local authorities to deliver their new Welsh in Education Implementation Plans, we would have expected greater coverage of this critical area within the White Paper.

To that end, we would like to better understand the relationship between this proposed Statutory National Plan, the Welsh in Education Workforce Plan and the local target setting involved in the new proposed WEIPs.

⁷ Culture, Communications and Welsh language Committee (May 2023): [Report into the legislative framework that supports Welsh-medium education provision \(senedd.wales\)](#)

⁸ [towardscymraeg2050.pdf \(colegcymraeg.ac.uk\)](#)

Chapter 5: Welsh in education planning with local authorities (questions 15-22)

As the independent regulator for qualifications in Wales, we have an interest in the development of Welsh in Education Implementation Plans (WEIPs), in as much as we anticipate and work towards a qualifications market that is responsive to an increase in demand for Welsh-medium and bilingual qualifications. The current Welsh in Education Strategic Plans report on this area under 'Outcome 4: More learners study for assessed qualifications in Welsh (as a subject) and subjects through the medium of Welsh'⁹.

The logical conclusion in terms of the introduction of a Welsh Language Education Bill, and the successful delivery of WEIPs is that more learners will be leaving statutory education and entering the post-16 sectors with Welsh language skills. This, in turn, increases the potential and the requirement for developing Welsh-medium post-16 provision.

Learners who attend further education colleges are more likely to stay in their local communities¹⁰ so supporting their linguistic progression through the availability of bilingual vocational qualifications is important. This will support the vision of a bilingual workforce, ready to work bilingually and contribute to the national target to:

Develop post-compulsory education provision which increases rates of progression and supports everyone, whatever their command of the language, to develop Welsh language skills for use socially and in the workplace.¹¹

Chapter 6: Duties on local authorities to proactively promote Welsh-medium education (questions 23-26)

We support the proposal to place a duty on local authorities to proactively promote Welsh-medium provision. This aligns with the activity of the majority of public services, especially in the health and social care sector, in Wales who have adopted the 'active offer'.

On a smaller scale, we have recently completed a consultation to place a duty on awarding bodies to proactively promote and facilitate the availability of Welsh-medium qualifications. This builds on published guidance to support awarding bodies with the development, delivery and awarding of their Welsh-medium qualifications, and an interactive resource pack for awarding bodies on delivering the

⁹ [Guidance on Welsh in Education Strategic Plans \(gov.wales\)](https://gov.wales/guidance-on-welsh-in-education-strategic-plans)

¹⁰ [towardscymraeg2050.pdf \(colegcymraeg.ac.uk\)](https://colegcymraeg.ac.uk/towardscymraeg2050.pdf)

¹¹ [Cymraeg 2050: Welsh language strategy | GOV.WALES](https://gov.wales/cymraeg-2050-welsh-language-strategy)

